Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

# Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27

Rhagfyr 2025

## 1. Cyflwyniad

**1.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi barn y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27 mewn perthynas â'r meysydd polisi o fewn ein cylch gorchwyl.

**2.** Ynghyd ag adroddiad y Pwyllgor Cyllid, ac adroddiad Pwyllgorau eraill y Senedd, bwriad yr adroddiad hwn yw llywio dadl y Senedd ar y gyllideb ddrafft, sydd wedi ei threfnu ar gyfer 16 Rhagfyr 2025.

**3.** Byddem yn croesawu ymateb i'n hadroddiad a'n hargymhellion.

### Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

**4.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynigion cyllideb ddrafft amlinellol ar gyfer 2026-27 ar 14 Hydref 2025, a chyhoeddodd ei chynigion cyllideb drafft manwl ar gyfer 2026-27 ar 3 Tachwedd 2025.

**5.** Cyhoeddwyd y setliad llywodraeth leol dros dro ar 24 Tachwedd 2025. O ystyried yr amserlen ar gyfer craffu, nid oeddem yn gallu cynnal sesiwn dystiolaeth gyda chynrychiolwyr llywodraeth leol ar y setliad dros dro.

**6.** Nodwyd yn nogfennaeth y gyllideb bod 98.6 y cant o gyfanswm y gyllideb wedi ei ddyrannu, gyda chytundeb ar tua £380 miliwn o gyllid heb ei ddyrannu i ddod cyn y Gyllideb Derfynol ym mis Ionawr 2026. Ar 9 Rhagfyr, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi dod i gytundeb cyllidebol gyda Phlaid Cymru

(“cytundeb cyllidebol”) a fyddai’n rhoi modd i basio’r gyllideb. Mae’r cytundeb cyllidebol yn dyrannu bron i £300 miliwn o’r cyllid heb ei ddyrannu i gyllidebau llywodraeth leol ac iechyd a gofal cymdeithasol.

**7.** Fe wnaethom graffu ar y cynigion yn y gyllideb ddrafft mewn perthynas â’r cyllidebau o fewn y Prif Grŵp Gwariant (“MEG”)Llywodraeth Leol a Thai.

## Ymagwedd y Pwyllgor tuag at graffu

**8.** Ar 13 Tachwedd 2025, clywsom dystiolaeth lafar gan gynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

**9.** Ar 20 Tachwedd 2025, fe wnaethom gynnal sesiwn graffu gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai (“Ysgrifennydd y Cabinet”) ar y dyraniadau tai, adfywio a thir yn y gyllideb ddrafft.

**10.** Ar 26 Tachwedd 2025, fe wnaethom gynnal sesiwn graffu gydag Ysgrifennydd y Cabinet ar y dyraniadau ar gyfer llywodraeth leol a’r setliad dros dro i lywodraeth leol.

**11.** Roedd Lindsay Whittle AS yn bresennol yn y cyfarfod ar 20 Tachwedd yn dirprwyo ar ran Siân Gwenllian AS. Roedd Mike Hedges AS a Cefin Campbell AS yn bresennol y cyfarfod ar 26 Tachwedd yn dirprwyo ar ran Lee Waters AS a Siân Gwenllian AS yn y drefn honno.

# 2. Llywodraeth leol

## Cyd-destun ariannol llywodraeth leol

### Cyd-destun

**12.** Mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gweld cynnydd sylweddol yn eu cyllidebau yn ystod y blynyddoedd diwethaf ar ôl degawd a mwy o lymder, pwysau chwyddiant cyflym a phandemig Covid-19. Er gwaethaf hyn, yn ei hymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27, disgrifiodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y setliad ariannol presennol ar gyfer 2025-26 fel un a oedd yn “well na’r disgwyl”, ond “nid oedd yn ddigon” o hyd. Mae’n golygu bod awdurdodau lleol yn wynebu pwysau ariannol sylweddol a phenderfyniadau anodd ynghylch pa wasanaethau y dylid eu blaenoriaethu.

**13.** Mae penderfyniad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gynyddu cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr wedi rhoi pwysau ychwanegol ar gyrff cyhoeddus. Er gwaethaf cyllid gan Lywodraethau'r Deyrnas Unedig a Chymru i ad-dalu llywodraeth leol, dim ond tua 85 y cant o'r gost ychwanegol roedd hyn yn ei gwmpasu, gan adael awdurdodau lleol i gyllido'r bwlch.

**14.** Er bod cyfraniadau Yswiriant Gwladol wedi cael "effaith sylweddol" ar gyllidebau awdurdodau lleol yn y flwyddyn ariannol hon, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan alw sy'n parhau i ychwanegu fwyaf at heriau ariannol y sector.

## Dull gweithredu cyffredinol Llywodraeth Cymru

**15.** Mae Cyllideb Ddrafft gyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27, yr olaf gan Lywodraeth bresennol Cymru, wedi cael ei disgrifio fel cyllideb "busnes fel arfer" gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg.

**16.** Yn yr adroddiad ar Gyllideb Ddrafft Amlinellol 2026-27, nodir y dull o ddyrannu cyllid i adrannau, sef cymryd y llinell sylfaen ddiwygiedig ac ychwanegu:

- 2.2 y cant o gynnydd i adnoddau cyllidol a ddarperir ar gyfer elfennau cyflog y sector cyhoeddus o fewn pob adran;
- 2 y cant o godiad ar gyfer adnoddau cyllidol nad ydynt yn gysylltiedig â chyflogau, cyfalaf cyffredinol a chyfalaf trafodion ariannol.

**17.** Yn ôl dogfennaeth y gyllideb, mae 98.6 y cant o gyfanswm y gyllideb (£27.6 biliwn) wedi ei ddyrannu gan adael tua £380 miliwn o gyllid heb ei ddyrannu. Mae hyn yn cynnwys £231 miliwn o adnoddau cyllidol, £136 miliwn o gyfalaf cyffredinol a £13 miliwn o gyfalaf trafodion ariannol.

**18.** Yn ei datganiad ar Gyllideb Ddrafft Amlinellol 2026-27 yn y Cyfarfod Llawn, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg mai "man cychwyn ym mhroses y gyllideb yw'r gyllideb ddrafft hon" a bod cyllideb "fwy uchelgeisiol, felly, y byddai'n bosibl cytuno arni ym mis Ionawr".

**19.** Mae cytundeb cyllideb Llywodraeth Cymru yn dyrannu £112.8 miliwn ychwanegol o'r cyllid heb ei ddyrannu i awdurdodau lleol. Mae hyn yn darparu 4.5 y cant o gynnydd cyffredinol i'r setliad llywodraeth leol, ac yn sicrhau o leiaf 4 y cant o godiad i bob awdurdod lleol.

### Pwysau gwario a gwydnwch ariannol

**20.** Mae gwydnwch ariannol awdurdodau lleol wedi dod i'r amlwg yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn ei adroddiad, Cynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2024, mae Archwilio Cymru yn datgan bod:

> *"risgiau sylweddol i gynaliadwyedd sefyllfa ariannol llywodraeth leol sy'n debygol o gynyddu dros y tymor canolig heb gamau gweithredu i'w lliniaru."*

**21.** Mae'n mynd ymlaen i ddweud bod angen i lawer o gynghorau gyflwyno "newid sylweddol yn eu dull", gan symud y tu hwnt i bennu cyllideb a fantolir yn flynyddol, a bod angen cynllunio tymor hwy.

**22.** Dywed Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ei hymateb i ymgynghoriad Pwyllgor Cyllid y Senedd fod llawer o'r diffyg "wedi'i drosglwyddo i aelwydydd Cymru, a Threth Cyngor cyfartalog wedi cynyddu mwy na 22%" dros y tair blynedd flaenorol. Noda fod hyn yn "anghynaladwy i deuluoedd sy'n gweithio'n galed sydd, yn naturiol, yn cwyno am dalu mwy a chael llai o wasanaeth".

**23.** Mae ymateb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i'r ymgynghoriad yn tynnu sylw at bwysau cyllidebol o tua £560 miliwn yn 2026-27 ac mae'n nodi, er mwyn i Lywodraeth Cymru gwrdd â chyfanswm pwysau cyllidebol awdurdodau lleol ar gyfer 2026-27, y byddai angen 9 y cant o gynnydd mewn gwariant refeniw net.

## Y setliad llywodraeth leol dros dro

### Cyllid Allanol Cyfun (AEF)

**24.** Ar 24 Tachwedd 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei setliad llywodraeth leol dros dro ar gyfer 2026-27. Ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddiadau, **£6.443 biliwn** yw'r cyllid craidd dros dro cyffredinol (Cyllid Allanol Cyfun, sy'n cynnwys y Grant Cynnal Refeniw ac Ardrethi Annomestig) ar gyfer llywodraeth leol yn 2026-27. Pan aed i'r wasg, roedd hyn yn cynrychioli 2.7 y cant o gynnydd cyfartalog, neu £167 miliwn, ar sail tebyg am debyg o gymharu â'r flwyddyn ariannol bresennol.

**25.** Mae'r Cyllid Allanol Cyfun wedi ei addasu yn ystyried cyllid a throsglwyddiadau yn ystod y flwyddyn, fel cyllid ychwanegol tuag at gytundebau cyflog y gweithlu, cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr, pensiynau neu

gynlluniau penodol fel cyllid i atal digartrefedd. Mae hyn yn darparu'r llinell sylfaen ar gyfer cymharu â setliad dros dro 2025-26.

**26.** Mae'r tabl isod yn dangos y newidiadau i'r setliad llywodraeth leol o setliad terfynol 2025-26, fel y'i cyhoeddwyd ar 24 Tachwedd:

| | 2025-26 (£oedd) (setliad terfynol) | 2025-26 (£oedd) (wedi ei addasu ar gyfer trosglwyddiadau) | 2026-27 (£oedd) (setliad dros dro) |
|---|---|---|---|
| **Cyllideb Grant Cynnal Refeniw** | 4,994,976 | 5,129,240 | 5,251,889 |
| **Cyllido gwaelodol** | 8,238 | 8,238 | 14,107 |
| **Cyfran Ardrethi Annomestig** | 1,135,863 | 1,135,863 | 1,176,822 |
| **Cyfanswm Cyllid Allanol Cyfun** | **6,139,078** | **6,273,341** | **6,442,817** |
| **canran y newid mewn perthynas â setliad 2025-26 (fel y'i haddaswyd ar gyfer trosglwyddiadau)** | | | **2.7 y cant** |

**27.** Roedd y 2.7 y cant o gynnydd canrannol cyffredinol yn sylweddol is na'r cynnydd yn y setliad ar gyfer 2025-26, sef 4.3 y cant (£257 miliwn), gan adael awdurdodau lleol gyda diffyg cyllidebol sylweddol. Cynyddwyd hyn wedi hynny i 4.5 y cant yn dilyn cytundeb cyllideb Llywodraeth Cymru.

**28.** Yn ei datganiad ar y setliad dros dro, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn datgan y bydd angen i awdurdodau lleol ddod o hyd i'r arian hwnnw o rywle arall:

> *"Cyfrifoldeb pob awdurdod lleol unigol yw gosod cyllidebau, a'r dreth gyngor yn ei thro. Bydd angen i awdurdodau ystyried pob ffynhonnell o gyllid sydd ar gael iddynt."*

**29.** O ran codi'r dreth gyngor i helpu i gyllido gwasanaethau lleol, dywedodd y Cynghorydd Mary Ann Brocklesby, Arweinydd Cyngor Sir Fynwy, wrthym:

> *"We cannot keep increasing it (y dreth gyngor); it is not fair on our residents. It's not the way to run a council when we have to*

> *be dependent on the resources of our residents who are already facing other costs in rent, in mortgages, in food, prices that continually go up."*[1]

**30.** Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch a yw'r gyllideb ddrafft a'r setliad dros dro yn adlewyrchu'r heriau sy'n wynebu awdurdodau lleol, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym mai ei blaenoriaeth yw diogelu swyddi a gwasanaethau rheng flaen.[2] Roedd hi'n cydnabod y pwysau mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu a dywedodd fod £134 miliwn ychwanegol wedi ei ychwanegu at y setliad ar gyfer cyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr, cyflogau athrawon a phwysau cyflog eraill. Aeth ymlaen i ddweud:

> *"…this part of the draft budget is, really, at the start of the process rather than the end. I hope and I'd like to see a lot of change between now and the final budget in January."*[3]

## Grant Cynnal Refeniw

**31.** Y Grant Cynnal Refeniw yw grant heb ei neilltuo Llywodraeth Cymru a ddosberthir i awdurdodau lleol drwy fformiwla sy'n seiliedig ar anghenion. Mae'r grant yn cynorthwyo gwasanaethau awdurdodau lleol yn gyffredinol (yn hytrach na grantiau penodol at ddibenion penodol). Cyfanswm y cymorth cyllid grant sydd ar gael i awdurdodau lleol yn 2026-27 oedd £5.252 biliwn. Mae £112.8 miliwn ychwanegol wedi ei ddarparu yn dilyn y cytundeb ar y gyllideb.

## Ardrethi Annomestig

**32.** Mae ardrethi annomestig (a elwir yn gyffredin yn ardrethi busnes) yn rhan sylweddol o'r cyllid allanol cyfun mae Llywodraeth Cymru yn ei ddyrannu i lywodraeth leol. Dosberthir hwn, ynghyd â'r grant cynnal refeniw, i'r 22 awdurdod lleol drwy'r fformiwla gyllido.

**33.** Ar gyfer 2026-27, roedd £1.18 biliwn mewn ardrethi annomestig wedi eu hailddosbarthu ar gael. Mae hyn ychydig yn uwch na'r lefel ardrethi annomestig ar gyfer 2025-26 (£1.14 biliwn).

[1] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 15
[2] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 21
[3] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 22

## Cyllido gwaelodol

**34.** Mae’r penderfyniad ar y cyllid gwaelodol yn un a gymerir gan Ysgrifennydd y Cabinet, yn seiliedig ar ganlyniad terfynol y fformiwla gyllido.

**35.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet yn ei phapur tystiolaeth bod £8.6 miliwn wedi ei gynnwys pan gyhoeddwyd y Gyllideb Ddrafft “i roi terfyn isaf gyda'r nod o sicrhau na fydd yr un awdurdod yn rhoi cynnydd sy’n is na 2.3%”. Nodwyd yn natganiad Ysgrifennydd y Cabinet ar y setliad dros dro bod £5.5 miliwn ychwanegol (ar ben yr £8.6 miliwn sydd eisoes wedi ei ddyrannu) hefyd wedi ei gynnwys i sicrhau nad oedd yr un awdurdod yn cael llai na 2.3 y cant. Roedd hyn yn rhoi cyfanswm o £14 miliwn mewn cyllid gwaelodol ar gyfer 2026-27.

**36.** Mae cytundeb cyllideb Llywodraeth Cymru yn dyrannu £112.8 miliwn ychwanegol i'r setliad llywodraeth leol, gan sicrhau y bydd pob awdurdod bellach yn cael 4 y cant o gynnydd o leiaf. Nid yw'n glir ar hyn o bryd a oes cyllid gwaelodol wedi ei gymhwyso i sicrhau nad oes unrhyw awdurdod bellach yn cael llai na 4 y cant.

**37.** Nid yw'n glir ar hyn o bryd a yw cyllid gwaelodol wedi'i gymhwyso i sicrhau nad oes unrhyw awdurdod bellach yn derbyn llai na 4 y cant.

## Grantiau Refeniw Penodol

**38.** Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi dyrannu £1.3 biliwn mewn cyllid grant refeniw penodol yn setliad 2026-27, er bod llawer o linellau grant i'w cadarnhau o hyd. Mae'r rhain yn cynnwys grantiau nodedig fel y grant Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (y dyrannwyd £3.65 miliwn ar ei gyfer yn flaenorol), y Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy (y dyrannwyd £16.4 miliwn ar ei gyfer yn flaenorol) a'r Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch (y dyrannwyd £76.3 miliwn ar ei gyfer yn flaenorol).

## Cyllid cyfalaf a benthyca

**39.** Mae'r dyraniad Cyfalaf Cyffredinol yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2026-27 ychydig yn uwch (£204 miliwn) na'r dyraniad yng Nghyllideb Derfynol 2025-26 (£200 miliwn). Er bod yr elfen Cyllid Cyfalaf Cyffredinol wedi cynyddu £4 miliwn ar ddyraniad 2025-26, clywsom gan lywodraeth leol nad yw dyraniadau cyfalaf cyffredinol wedi cadw’n gyfredol â chwyddiant dros y blynyddoedd diwethaf.

**40.** Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn dweud yn ei hymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid, er bod chwyddiant wedi dychwelyd i "lefelau 'mwy arferol", mae costau:

> *"wedi aros ar y lefelau uwch ond nid yw cyllid cyfalaf craidd wedi cynyddu gyda chwyddiant, a'r canlyniad yw bod cyllidebau cyfalaf craidd yn aros yr un fath."*

**41.** Er nad yw cyllid cyfalaf cyffredinol wedi cadw'n gyfredol chwyddiant, clywsom am fenter gan Lywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â llywodraeth leol, i ddatgloi £120 miliwn o gyfalaf ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd. Mae'r dull arloesol hwn o fenthyca cyfalaf i awdurdodau lleol, a lansiwyd ym mis Mawrth 2025, yn darparu £10 miliwn yn ychwanegol o gyllid refeniw i gynghorau lleol, gan eu galluogi i ddatgloi £120 miliwn ychwanegol o gyllid cyfalaf i gyflymu'r broses o drwsio ffyrdd a palmentydd lleol. Croesawodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y fenter hon, gan ddweud y bydd yn cefnogi cynnal a chadw priffyrdd yn y flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn ariannol nesaf.

**Ein barn ni:**

**42.** Rydym yn nodi'r cynnydd bach i'r dyraniad Cyfalaf Cyffredinol ar gyfer 2026-27, ond mae'n destun pryder nad yw wedi cadw i fyny â chwyddiant, gan adael cyllidebau cyfalaf craidd yn statig i bob pwrpas. Rydym yn croesawu dull Llywodraeth Cymru o ddatgloi cyllid ychwanegol ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd drwy'r Fenter Benthyca Llywodraeth Leol a hoffem weld mwy o ymdrechion i ddatblygu dulliau arloesol o ymdrin â chyllid awdurdodau lleol.

**Casgliad 1.** Byddem yn annog arloesi mewn meysydd eraill i alluogi awdurdodau lleol i gyllido gwelliannau mewn ysgolion, seilwaith lleol a meysydd craidd eraill o wariant cyfalaf.

## Y fformiwla gyllido

**43.** Mae'r fformiwla gyllido a ddefnyddir i bennu dosbarthiadau awdurdodau lleol yn thema barhaus wrth graffu ar gyllidebau. Fel y nodwyd yn ein hadroddiad y llynedd, ac unwaith eto yn y dystiolaeth a ddaeth i law eleni, mae galw cynyddol i adolygu'r fformiwla, y set ddata a sut mae'r setliad yn cael ei gyfrifo.

## Dosbarthiad awdurdodau lleol

**44.** Roedd awdurdodau lleol yng Nghymru i fod i dderbyn 2.7 y cant o gynnydd cyffredinol fel rhan o'r setliad dros dro hwn (£6.4 biliwn mewn cyllid craidd). Fodd bynnag, yn dilyn cytundeb cyllideb Llywodraeth Cymru, mae hyn bellach wedi cynyddu i isafswm o 4 y cant. Caiff hwn ei ddosbarthu i'r 22 awdurdod lleol drwy fformiwla gyllido llywodraeth leol ac mae'n seiliedig ar asesiadau gwariant safonol. Mae'r rhain yn gyfrifiad tybiannol o'r hyn y mae angen i bob cyngor ei wario i ddarparu lefel safonol o wasanaeth. Mae'r tabl isod yn dangos swm dros dro y Cyllid Allanol Cyfun y byddai pob awdurdod lleol wedi ei gael yn 2026-27, a'r gwahaniaeth canrannol o'i gymharu â 2025-26, fel yr oedd pethau pan oeddem yn cynnal ein gwaith craffu.

**Newid mewn Cyllid Allanol Cyfun, ynghyd â chyllid gwaelodol, wedi ei addasu ar gyfer trosglwyddiadau a sylfaen dreth, yn ôl Awdurdod Unedol (£000), fel y cyhoeddwyd ar 24 Tachwedd 2025**

| Awdurdod Unedol | Cyllid Allanol Cyfun Terfynol 2025-26 [Nodyn 1] | Cyllid Allanol Cyfun Dros Dro 2026-27 | Newid fel canran | Rheng |
|---|---|---|---|---|
| Casnewydd | 335,794 | 350,132 | 4.30% | 1 |
| Abertawe | 477,963 | 494,124 | 3.40% | 2 |
| Blaenau Gwent | 157,793 | 162,970 | 3.30% | 3 |
| Merthyr Tudful | 135,774 | 139,987 | 3.10% | 4 |
| Wrecsam | 255,584 | 263,295 | 3.00% | 5 |
| Torfaen | 196,544 | 202,428 | 3.00% | 6 |
| Rhondda Cynon Taf | 532,221 | 547,512 | 2.90% | 7 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 283,206 | 291,089 | 2.80% | 8 |
| Sir Ddinbych | 220,048 | 226,092 | 2.70% | 9 |
| Caerffili | 382,163 | 392,045 | 2.60% | 10 |
| Castell-nedd Port Talbot | 312,756 | 320,767 | 2.60% | 11 |
| Caerdydd | 688,140 | 704,228 | 2.30% | 12 |
| Ynys Môn | 138,802 | 141,994 | 2.30% | 13 |
| Gwynedd | 253,573 | 259,405 | 2.30% | 13 |
| Conwy | 224,223 | 229,380 | 2.30% | 13 |
| Sir y Fflint | 282,352 | 288,846 | 2.30% | 13 |
| Powys | 256,731 | 262,636 | 2.30% | 13 |
| Ceredigion | 147,283 | 150,670 | 2.30% | 13 |
| Sir Benfro | 238,825 | 244,318 | 2.30% | 13 |
| Sir Gaerfyrddin | 384,776 | 393,626 | 2.30% | 13 |
| Bro Morgannwg | 230,231 | 235,526 | 2.30% | 13 |
| Sir Fynwy | 138,560 | 141,747 | 2.30% | 13 |
| **Cyfanswm Awdurdodau Unedol** | **6,273,341** | **6,442,817** | **2.70%** | |

**45.** Cyngor Dinas Casnewydd a gafodd y cynnydd mwyaf yn 2026-27 o ran cynnydd canrannol ar draws yr holl awdurdodau lleol, sef 4.3 y cant. Roedd hyn yn sylweddol uwch na'r cyngor agosaf yn y tabl, Abertawe, a welodd 3.4 y cant o gynnydd.

**46.** Cafodd y rhan fwyaf o'r awdurdodau eraill gynnydd tebyg i'w gilydd yn fras (o fewn pwynt canran), gydag 11 o'r 22 awdurdod lleol yn cael 2.3 y cant o gynnydd yn eu cyllidebau.

**47.** Fe wnaeth deg awdurdod elwa ar y £14 miliwn ychwanegol o gyllid gwaelodol ar gyfer 2026-27. Sir Fynwy (£3.25 miliwn) a Sir y Fflint (£2.8 miliwn) a gafodd y gyfran fwyaf, tra bod Powys a Bro Morgannwg wedi cael dros £2 filiwn yr un.

**48.** Roedd yr awdurdodau a gafodd gyllid ychwanegol bron yr un fath â'r awdurdodau hynny a gafodd gyllid gwaelodol yn 2025-26 (Sir Gaerfyrddin oedd yr ychwanegiad yn 2026-27).

**49.** Mae hefyd yn werth nodi y byddai Cyngor Sir Fynwy wedi cael 0.4 y cant o ostyngiad yn ei setliad dros dro heb gyllid gwaelodol.

## Fformiwla Cyllido – cwantwm a gwaelodol

**50.** Pwysleisir yn nhystiolaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru mai maint cyffredinol y setliad cyllid llywodraeth leol - y cwantwm - yw'r mater mwyaf hanfodol sy'n wynebu cynghorau. Heb gynnydd sylweddol yn y setliad, mae'n nodi na fydd awdurdodau lleol yn gallu cwrdd â'r cynnydd yn y galw a'r pwysau cynyddol mewn meysydd fel Anghenion Dysgu Ychwanegol, gwasanaethau plant, a gofal cymdeithasol.

**51.** Yn ein sesiwn dystiolaeth gyda chynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, dywedodd y Cynghorydd Nia Jeffreys, Arweinydd Cyngor Gwynedd:

> *"Rydym ni'n sôn am orwariant trwy'r amser, a beth rydym ni'n sôn amdano go iawn ydy tangyllido—tangyllido'r gwasanaethau sylfaenol yma mae pobl yn dibynnu arnyn nhw o ddydd i ddydd."*[4]

[4] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 74

**52.** Mewn ymateb i gwestiwn am y cynnydd lleiaf a fyddai'n dderbyniol, dywedodd y Cynghorydd Mary Ann Brocklesby wrthym:

> *"We recognise the constraints we're all under, but to start really sustaining our services, but also doing that preventative, early intervention work, we need to look at a figure of around 4 per cent or more."*[5]

**53.** Pwysleisiodd y Cynghorydd Jake Berriman, Arweinydd Cyngor Sir Powys, yr angen am gydraddoldeb, yn enwedig ar gyfer awdurdodau gwledig sy'n wynebu heriau unigryw. Dywedodd wrthym fod prinder poblogaeth a phellter rhwng canolfannau gwasanaeth yn fater enfawr i Bowys,[6] a chefnogodd yr alwad am tua 4 y cant o gyllid gwaelodol.

**54.** Pan ofynnwyd iddo am y nifer uchel o awdurdodau lleol sy'n cael cyllid gwaelodol eleni, esboniodd swyddog o Lywodraeth Cymru fod hynny o ganlyniad uniongyrchol i faint isel y cynnydd cyffredinol, ac y byddai cwantwm mwy yn lleihau'r ddibyniaeth ar y cyllid gwaelodol. Aeth ymlaen i esbonio:

> *"…this year, in particular, with a budget that is being set at the level it's set and to protect, then a 2.3 per cent floor was a choice, but it also means that more authorities are in that lower band than would normally be expected."*[7]

**55.** Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â sut mae'r Llywodraeth yn mynd i gydbwyso'r angen am lywodraeth leol gynaliadwy a gwydn, gyda'r system bresennol fel petai hi'n fodlon i rai awdurdodau syrthio oni bai bod ganddynt gyllid gwaelodol i'w cadw i fynd, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"…there's no evidence to suggest that any authority with particular geographical or social characteristics is being disadvantaged through the funding formula. But I think, again, it is really important that we bring up to date the data."*[8]

## Ein barn ni

**56.** Roedd ein gwaith craffu yn seiliedig ar y setliad dros dro i lywodraeth leol a gyhoeddwyd ar 24 Tachwedd. Fel rydym wedi ei ddweud yn barod, mae'r

---

[5] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 86
[6] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 88
[7] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 127
[8] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 134

cytundeb cyllideb a gyhoeddwyd ar 9 Rhagfyr wedi darparu cyllid ychwanegol i lywodraeth leol. Rydym yn pryderu nad ydym wedi cael unrhyw wybodaeth fanwl am y setliad diwygiedig eto, ac yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod hyn ar gael cyn gynted â phosibl.

**57.** Roeddem yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn y setliad dros dro i ddarparu cyllid gwaelodol i sicrhau nad oedd yr un awdurdod yn cael llai na 2.3 y cant o gynnydd. Fodd bynnag, roeddem yn pryderu bod bron i hanner awdurdodau lleol Cymru yn dibynnu ar y cyllid gwaelodol i sicrhau eu bod yn cael cynnydd ar isafswm lefel chwyddiant.

**58.** Rydym yn croesawu'r cyllid refeniw cyffredinol ychwanegol a ddyrannwyd i'r Grant Cynnal Refeniw yn dilyn y cytundeb cyllideb a fydd bellach yn sicrhau bod pob awdurdod lleol yn cael o leiaf 4 y cant o gynnydd. Mewn gwirionedd, dyma'r isafswm y byddem wedi ei argymell i leddfu rhywfaint o'r pwysau cyllidebol ar awdurdodau lleol. Er bod y cyllid ychwanegol hwn yn ddymunol, rydym yn pryderu bod awdurdodau lleol yn parhau i fod mewn sefyllfa fregus ac yn dal i wynebu'r posibilrwydd o orfod cynyddu'r dreth gyngor, gwneud toriadau i wasanaethau a'r risg o golli swyddi.

**59.** Rydym yn pryderu bod y defnydd dro ar ôl tro hwn o'r cyllid gwaelodol yn arwydd o broblemau strwythurol gyda'r fformiwla, y mae perygl iddo olygu y bydd rhai awdurdodau yn anghynaliadwy oni bai bod mesurau diogelu dros dro fel y cyllid gwaelodol yn cael eu cynnal, gan fygwth gwydnwch tymor hir llywodraeth leol. O ystyried bod y fformiwla yn gweithredu fel system sero-swm, dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ar gynyddu cwantwm cyffredinol y cyllid sydd ar gael yn y setliad a sicrhau bod y fformiwla yn deg. Byddai hyn yn negyddu'r angen am gyllid gwaelodol o gwbl yn ein barn ni.

**60.** Roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn glir ei bod hi'n disgwyl i'r gyllideb derfynol edrych yn wahanol i'r drafft. Bydd y cyllid ychwanegol ar gyfer llywodraeth leol o'r cytundeb cyllideb yn helpu i leddfu rhywfaint o'r pwysau ariannol mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu, yn lleihau'r baich ar dalwyr y dreth gyngor sydd eisoes yn cael trafferth gyda'r argyfwng costau byw, ac yn lleihau'r risg o ddiswyddiadau i weithwyr sector cyhoeddus gweithgar. Fodd bynnag, yn ystod ein gwaith craffu, nodwyd gennym mai dim ond bron i hanner y pwysau cyllidebol a nodwyd ar gyfer 2026-27 y byddai 4 y cant o gynnydd yn y cyllid cyffredinol yn mynd i'r afael â nhw, a'n barn ni oedd mai dyma'r lleiafswm y dylid ei ystyried.

**61.** Rydym yn ymwybodol y bydd Llywodraeth Cymru yn cael cyllid ychwanegol yn dilyn Cyllideb yr Hydref y Deyrnas Unedig, sef oddeutu £186 miliwn mewn DEL adnoddau a £14 miliwn yn y DEL Cyfalaf. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i glustnodi peth o'r cyllid hwn ar gyfer gwasanaethau ataliol wedi eu targedu a ddarperir gan awdurdodau lleol mewn meysydd y mae galw mawr amdanynt a chost uchel, fel gwasanaethau cymdeithasol i oedolion a phlant.

**Argymhelliad 1.** Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r setliad llywodraeth leol diwygiedig gyda ffigurau dangosol cyn gynted â phosibl, a chyn cyhoeddi'r Gyllideb Derfynol ym mis Ionawr. Byddai hyn yn rhoi sicrwydd i awdurdodau lleol ac yn eu galluogi i gynllunio cyllidebau yn unol â hynny.

## Fformiwla Cyllido - Setiau Data a Dangosyddion

**62.** Mae'n amlwg bod rhwystredigaeth yn parhau i fodoli ynghylch y fformiwla gyllido ac yn benodol y defnydd o ddata sydd wedi dyddio.

**63.** Tynnodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sylw yn ei ymateb i'r ymgynghoriad at y ffaith bod "pryder cynyddol o ran faint mae'r data wedi dyddio… ac a yw'r dangosyddion yn parhau i fod yn rhai cywir ac wedi'u pwysoli'n gywir". Yn benodol, mae'n dweud bod setiau data sy'n sail i deneurwydd y boblogaeth ac amddifadedd wedi dyddio a bod hyn yn "achosi rhwystredigaeth" i awdurdodau lleol.

**64.** Er mai barn y Gymdeithas ar y cyd yw mai maint cyffredinol y setliad cyllid llywodraeth leol yw'r mater brys, wrth feddwl am ddata, mae'n nodi yn ei hymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid y gallai:

> *"Llywodraeth Cymru wneud gwell defnydd o ddata i ragweld galw am wasanaethau yn y dyfodol, yn enwedig rhagamcanion modelu o ran newid demograffig a phoblogaeth. Mae'n allweddol bod data'n cael ei ddefnyddio i fodelu sefyllfaoedd posibl ar gyfer twf yn y dyfodol o ran pwysau ADY, gwasanaethau plant a gofal cymdeithasol."*

**65.** Roedd yn amlwg o'n sesiwn dystiolaeth gyda'r Gymdeithas fod awdurdodau lleol mewn ardaloedd gwledig yn pryderu am y data a'r dangosyddion ar elfen prinder y fformiwla, gyda'r Cynghorydd Nia Jeffreys yn dweud wrthym:

> *"Dwi'n meddwl ei bod hi'n bwysig i ni bwysleisio hefyd bod yna gost ychwanegol i ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig. Mae'r gost o orfod darparu trafnidiaeth i blant i fynd i*

> *ysgolion a ballu yn bwysau ychwanegol arnom ni mewn ardaloedd gwledig."*[9]

**66.** Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y fformwla gyllido yn parhau i gael ei hadolygu, yn flynyddol, gan yr is-grŵp dosbarthu. Wrth gydnabod pryderon bod rhywfaint o'r data a ddefnyddir wedi dyddio, pwysleisiodd:

> *"Over 80 per cent (of data) are updated annually, so we have that good amount of up-to-date data, and we have agreed a programme of work to assess and update data inputs and associated weightings."*[10]

**67.** Mewn perthynas â'r 'rhaglen waith' neu'r adolygiad, dywedodd swyddog o Lywodraeth Cymru wrthym y byddai hyn yn sicrhau mai'r data a ddefnyddir yw'r data mwyaf diweddar sydd ar gael ac mai dyma'r set briodol o ddata.[11] Aeth ymlaen i gadarnhau bod yr 20 y cant o'r data nad yw'n cael ei ddiweddaru'n flynyddol yn rhan o'r adolygiad hwnnw.

**68.** Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet fod galwadau wedi bod am adolygiad ers blynyddoedd lawer, ac esboniodd swyddog o Lywodraeth Cymru fod cyfyngiadau amseru ac adnoddau fel yn ystod cyfrifiad 2011 a chyfnodau o bwysau ar y gyllideb wedi gohirio'r adolygiad:

> *"…because of the timing of the censuses, when we had the 2011 census, it was in a period where budgets were quite severely constrained, and there was less appetite then to create the churn that a change of that data would have caused."*[12]

**69.** Ychwanegodd fod staff ychwanegol bellach wedi eu neilltuo'n benodol i adolygu'r data i fynd i'r afael â'r gwaith hir ddisgwyliedig hwn.

**70.** Er gwaethaf y data sydd wedi dyddio, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym:

---

[9] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 27
[10] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 23
[11] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 109
[12] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 108

> *"...there's no evidence to suggest that any authority with particular geographical or social characteristics is being disadvantaged through the funding formula."*[13]

## Ein barn ni

**71.** Rydym yn nodi'r rhwystredigaeth sy'n parhau i fodoli o gwmpas y fformiwla gyllido ac yn enwedig y defnydd o ddata sydd wedi dyddio. Er bod 80 y cant o'r data a ddefnyddir yn y fformiwla yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol, rydym yn pryderu bod yr 20 y cant sy'n weddill, yn enwedig dangosyddion sy'n gysylltiedig â 'data prinder a gwasgariad - y rhai daearyddol' fel y'u disgrifiwyd gan swyddog o Lywodraeth Cymru, yn parhau i fod yn gysylltiedig â ffynonellau mor hen â chyfrifiad 1991.

**72.** Cawsom ein calonogi pan glywsom fod adolygiad o'r data sy'n sail i'r fformiwla ar y gweill, sy'n rhywbeth i'w groesawu. Fodd bynnag, rydym yn siomedig nad yw'r gwaith hwn wedi cael ei wneud yn gynt o ystyried ei bwysigrwydd o ran dosbarthu cyllid awdurdodau lleol. Mae'r ddibyniaeth ar setiau data sydd wedi dyddio yn tanseilio hyder yn nhegwch ac effeithiolrwydd dyraniadau cyllideb awdurdodau lleol. Mae'n siomedig na wnaeth Llywodraeth Cymru adolygu'r data hwn ar ôl cyfrifiad 2011, a bod cyllidebau di-ri wedi eu pasio heb fawr o weithredu yn y maes hwn.

**73.** Rhaid i Lywodraeth Cymru yn awr flaenoriaethu ei hadolygiad o'r data a'r dangosyddion i sicrhau bod setliadau yn y dyfodol yn seiliedig ar yr wybodaeth ddiweddaraf sy'n adlewyrchu'n gywir anghenion cymunedau Cymru. Hoffem i Lywodraeth Cymru roi eglurder ar gwmpas yr adolygiad ac unrhyw amserlen sydd ynghlwm. Hoffem weld mwy o dryloywder ynghylch penderfyniadau yn cael eu gwneud ar y fformiwla gyllido fel bod gan awdurdodau lleol hyder yn y broses ac yn y ffordd y cyfrifir dyraniadau.

**Argymhelliad 2.** Rhaid i Lywodraeth Cymru flaenoriaethu'r adolygiad o'r data a'r dangosyddion sy'n sail i'r fformiwla gyllido fel bod setliadau yn y dyfodol yn deg ac yn adlewyrchu'n gywir anghenion cymunedau Cymru. Dylai roi cwmpas yr adolygiad i ni gan amlinellu pa ddata a dangosyddion sy'n cael eu hasesu, unrhyw amserlen sydd ynghlwm, y camau a gymerwyd, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am gynnydd.

[13] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 134

## Atal ac arloesi mewn llywodraeth leol

**74.** Mae awdurdodau lleol wedi bod yn dadlau ers tro dros gael mwy o fuddsoddiad mewn ymyriadau cynnar ac atal, yn enwedig yn y gwasanaethau hynny lle mae galw mawr a chost uchel, fel gofal cymdeithasol. Ond mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn tynnu sylw at y ffaith, er gwaethaf cydnabyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd atal o fewn polisi a strategaethau Llywodraeth Cymru, "[nad] yw'n aml yn cael ei adlewyrchu wrth ddyrannu adnoddau".

**75.** Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn mynnu bod angen "newid sylweddol o safbwynt dyrannu adnoddau er mwyn i gynghorau fuddsoddi'n hyderus mewn ymagweddau atal" ac y gall "buddsoddi mewn gwasanaethau llywodraeth leol gael effaith ataliol sylweddol":

> *"Mae buddion ehangach yn sgil buddsoddi mewn meysydd fel gwasanaethau ieuenctid, gofal cymdeithasol, addysg, teithio llesol a chludiant cyhoeddus, cyfleusterau hamdden, tai cymdeithasol, cefnogaeth i fusnesau lleol ac ati, er enghraifft mewn perthynas â gwella iechyd (lleihau'r pwysau ar y GIG), lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol (llai o bwysau ar yr heddlu), a lleihau absenoliaeth yn y gweithlu (gwella cynhyrchiant busnes)."*

**76.** Yn ein sesiwn dystiolaeth gyda chynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, pwysleisiodd y Cynghorydd Nia Jeffreys y pwynt hwn:

> "…wnawn ni byth ddatrys problemau'r gwasanaeth iechyd efo, er enghraifft, rhestrau aros nes ein bod ni'n cyllido llywodraeth leol yn deg. Ni yn llywodraeth leol sydd yn stopio pobl rhag mynd i mewn drwy ddrws ffrynt y gwasanaeth iechyd, efo'r holl waith ataliol sydd wedi cael ei amlinellu'n barod, *a ni hefyd sydd yna yn y drws cefn pan fydd pobl yn dod allan o ysbytai."*[14]

**77.** Yn yr un modd â sesiynau tystiolaeth blaenorol ar y gyllideb, clywsom fod angen golwg tymor hwy ar lywodraeth leol o ran sut i ddarparu gwasanaethau a sut mae'r gwasanaethau hynny'n cael eu cyllido. Dywedodd y Cynghorydd Mary Ann Brocklesby wrthym:

> *"We do collectively have to realise that we cannot … expect the transformations we want without shifting resources to prevention. Historically, any prevention work has been*

[14] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 115

*overtaken by crisis, particularly in getting people out of hospital as quick as possible.”*[15]

**78.** Cododd y Cynghorydd Jane Gebbie, Dirprwy Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, bryderon am effaith demograffeg sy'n heneiddio ar y galw am wasanaethau:

*“When we look at the population needs assessment across all regional partnership boards, it's clearly indicating that we've got a lower birth rate, we've got lower economic activity for younger people, and we also know that we've got an ageing demographic with really complex health conditions, some of which could be addressed earlier with an early intervention and prevention strategy. If we could stop them going into crisis, that would assist us.”*[16]

**79.** Dywedir mewn adroddiad diweddar gan Archwilio Cymru nad yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 “yn ysgogi’r newid system gyfan a fwriadwyd”. Eir ymlaen i ddweud:

*“Mae cyflymu cynnydd dan y Ddeddf yn dechrau â blaenoriaethu atal. Heb newid mwy systematig tuag at atal, bydd cyllidebau’n cael eu disbyddu, ac mae’n debygol y bydd deilliannau’n waeth. Po hwyaf a gymer, po waethaf y mae pethau’n debygol o fynd.”*

**80.** Roedd un o argymhellion yr Adroddiad yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

- adeiladu ar waith i wreiddio atal ym mhroses y gyllideb gan ystyried, er enghraifft, gyfleoedd i ddod â chyllid ynghyd ar draws gwahanol rannau o’r system i gefnogi atal; a hefyd
- cymell a diogelu gwariant ataliol ar lefel leol.

**81.** Fodd bynnag, gwrthododd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn. Wrth roi tystiolaeth i Bwyllgor Cyllid y Senedd, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol:

*"It’s disappointing that it’s been rejected, because it seems so fundamental, and we consciously drew up that*

[15] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 106
[16] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 41

> *recommendation in a way that I felt enabled it to be readily taken on board and acted on."*[17]

**82.** Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â pham mae Llywodraeth Cymru wedi gwrthod argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol i ymgorffori atal mewn cyllidebau, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym:

> *"...hypothecating funding would reduce the ability of institutions to manage their own budgets, and I think that that is something that we need to be aware of. And that, again, would potentially prevent any of that innovation that we've talked about this morning. So, it is really difficult to isolate funding for prevention, again, in a way that's effective and fair."*[18]

**83.** Rhannodd y Cynghorydd Mary Ann Brocklesby enghraifft o waith ataliol yn Sir Fynwy y mae hi o'r farn y gellid ei rannu ar draws awdurdodau lleol eraill pe bai cyllid ar gael:

> *"We are seeing, in some of our enablement work, trends that are allowing people to stay in their community for as long as possible. That could be accelerated across all local authorities if the funding was shifted to prevention and community-based medical services, because, of course, we need to work with GPs, but there are constraints around that as well."*[19]

**84.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod cyllid heb ei neilltuo yn rhoi hyblygrwydd i awdurdodau lleol ymateb i anghenion eu poblogaeth. Dywedodd:

> *"Again, leaders really made that important point to me on Monday when I met them about those unhypothecated grants, having that flexibility, and they stressed to me that when additional funding went into the settlement, it went to areas of priority, for example, directly into school budgets."*[20]

**85.** Nododd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd fod nifer o grantiau penodol sydd hefyd yn cefnogi gwasanaethau ataliol, nad ydynt o fewn ei phortffolio:

---

[17] Y Pwyllgor Cyllid, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 196
[18] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 98
[19] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 107
[20] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 96

> *"Some of the prevention is funded, in whole or part, through specific grants, from not just me, but my colleagues, for example, on the transformation of waste services across Wales, or work that develops a regional and national fostering and adoption service across Wales."*[21]

## Ein barn ni

**86.** Rydym yn cydnabod nad oes gan lywodraeth leol unrhyw sicrwydd ynghylch cyllidebau a'i bod yn amlwg bod hynny'n peri anawsterau. Byddai setliadau amlflwyddyn o gymorth os ydym am weld awdurdodau lleol yn cynllunio ar gyfer y tymor canolig a'r tymor hir, ond mae angen cyfarwyddyd mwy strategol arnynt hefyd gan Lywodraeth Cymru.

**87.** Rydym ar ddeall fod gwaith ataliol yn aml yn cael ei dorri pan fo pwysau ar gyllidebau, er mwyn blaenoriaethu cyllid ar gyfer anghenion tymor byr a/neu wasanaethau statudol. Fodd bynnag, fel y gwnaethom amlygu yn ein hadroddiad ar gyllideb ddrafft 2025-26, dylid defnyddio pwysau o'r fath fel sbardun ar gyfer newid trawsnewidiol. Gall buddsoddi mewn mentrau a rhaglenni arloesol, yn enwedig mewn gwasanaethau cost uchel a rhai y mae galw mawr amdanynt, fel gofal cymdeithasol, ddarparu arbedion effeithlonrwydd a helpu llywodraeth leol yn y tymor hir. Credwn fod angen newid sylfaenol yn y ffordd y caiff adnoddau eu dyrannu i wasanaethau ataliol. Gall buddsoddi mewn gwasanaethau llywodraeth leol fel gwasanaethau ieuenctid, gwasanaethau hamdden a mwy o gyllid i'n hysgolion gael effaith sylweddol, gan wella iechyd, lleihau'r pwysau ar y GIG, a lleddfu'r galwadau ar adnoddau eraill.

**88.** Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym ei bod hi wedi ymrwymo i'r agenda atal, ond nid yw hyn, yn ein barn ni, yn cael ei adlewyrchu yn nyraniadau'r gyllideb ddrafft na'r setliad. Rydym yn pryderu, oni bai bod atal wedi ei ymgorffori ym mhroses pennu'r gyllideb, y bydd gwasanaethau yn parhau i fod yn adweithiol, ac y bydd cyfleoedd ar gyfer arloesi yn cael eu colli.

**89.** Mae atal effeithiol ac ymyriadau cynnar yn gofyn am arweinyddiaeth gref. Er ein bod ni'n cydnabod bod llywodraeth leol wedi galw'n rheolaidd am i fwy o'i chyllid gael ei gynnwys yn y grant cynnal refeniw heb ei neilltuo, mae achos cryf hefyd dros gyllid penodol wedi ei glustnodi pan fo Llywodraeth Cymru wedi asesu y bydd cyllid o'r fath yn helpu i sbarduno newid. Mae hyn yn arbennig o wir mewn meysydd galw uchel, cost uchel fel gwasanaethau cymdeithasol. Fodd

[21] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 89

bynnag, mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb hefyd i weithio o fewn yr adnoddau sydd ganddynt i geisio trawsnewid gwasanaethau a chydweithio er mwyn canfod arbedion effeithlonrwydd. Rydym wedi clywed am rai enghreifftiau da ledled Cymru o awdurdodau yn cydweithio ar fentrau ataliol ac arloesol, ond nid yw'n glir i ba raddau mae hyn yn digwydd. Credwn y gellid ac y dylid gwneud mwy i gydweithio a rhannu arfer da.

**90.** Mae gan Lywodraeth Cymru rôl i'w chwarae o ran annog cynnydd ar wasanaethau ataliol ac arloesi, a hwyluso cydweithio rhwng partneriaid yn y sector. Rydym yn pryderu bod cyfarwyddyd strategol a goruchwyliaeth o'r fath ar goll ar hyn o bryd.

**Casgliad 2.** Yn absenoldeb cyllid digonol, credwn fod arweinyddiaeth gan Lywodraeth Cymru yn hanfodol o ran darparu cyfarwyddyd ac arweiniad strategol clir i awdurdodau lleol. Mae angen i Lywodraeth Cymru gynorthwyo'r sector i gael gwared ar yr hyn sy'n rhwystro arloesi a sicrhau bod arferion da yn cael eu rhannu'n effeithiol. Rydym yn siomedig ynghylch y diffyg pwyslais ar gynllunio ar gyfer y dyfodol a'r ffocws cyfyngedig ar arloesi a gwaith partneriaeth. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyfarwyddyd clir, blaenoriaethau a chymorth i awdurdodau lleol, gan eu galluogi i fabwysiadu dulliau profedig, arloesol o ymdrin â gwasanaethau ataliol. Dylid gofyn i awdurdodau lleol ddarparu cyfiawnhad os nad yw'r gwasanaethau hyn yn cael eu gweithredu.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru ymgorffori atal yn y broses o bennu cyllidebau, a chydnabod yr angen am newid sylfaenol er mwyn darparu adnoddau ar gyfer gwasanaethau ataliol.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru fod yn darparu arweinyddiaeth strategol i awdurdodau lleol a gosod llwybr clir ar gyfer mabwysiadu arfer da ac arloesi ynghylch gwasanaethau ataliol, gan hefyd eu hannog i fabwysiadu neu gyfiawnhau eu penderfyniadau.

# 3. Tai ac adfywio

## Cyllid cyffredinol ar gyfer Tai ac Adfywio

**91.** Mae cyllideb ddrafft gyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27 yn dyrannu tua £27 biliwn, ac eithrio Gwariant a Reolir yn Flynyddol ac adnoddau anariannol. Mae hyn tua "98.6 y cant o'r cyllid sydd ar gael". Mae hyn yn gadael £380 miliwn o gyllid heb ei ddyrannu, sy'n cynnwys £231 miliwn o adnoddau cyllidol, £136 miliwn o gyfalaf cyffredinol a £13 miliwn o gyfalaf trafodion ariannol.

**92.** Mae adroddiad Cyllideb Ddrafft Amlinellol 2026-27 yn amlinellu'r dull o ddyrannu cyllid i adrannau, sef cymryd gwaelodlin ddiwygiedig 2025-26 ac ychwanegu:

- 2.2 y cant o gynnydd i adnoddau cyllidol a ddarperir ar gyfer elfennau cyflog y sector cyhoeddus ym mhob adran
- 2 y cant o gynnydd ar gyfer adnoddau cyllidol nad ydynt yn gyflog, cyfalaf cyffredinol a Chyfalaf Trafodiadau Ariannol.

**93.** O ganlyniad, mae'r cynnydd uchaf mewn dyraniadau adnoddau cyllidol ar gyfer Llywodraeth Leol a Thai (2.21 y cant) a'r isaf ar gyfer Cyfiawnder Cymdeithasol (2.02 y cant). Mae'r effaith ar gyflog athrawon ar y flwyddyn academaidd lawn yn cael ei hadlewyrchu yn yr adran Llywodraeth Leol a Thai, a dyna pam mae hyn dros 2.2 y cant.

**94.** Y cyfanswm yng nghyllideb ddrafft 2026-27 ar gyfer tai ac adfywio yw £1.299 biliwn, sy'n cynrychioli 4.85 y cant o gyfanswm gwariant cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru:

- O ran refeniw, y gyllideb ddrafft yw £238.5 miliwn, sydd £4.7 miliwn (2.01y cant) yn fwy na'r gyllideb sylfaenol
- O ran cyfalaf, y gyllideb ddrafft yw £1.06 biliwn, sydd £101.7 miliwn (10.6 y cant) yn fwy na'r gyllideb sylfaenol.

**95.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet yn ei thystiolaeth ysgrifenedig fod y gyllideb ddrafft hon yn adlewyrchu "ein hymgyrch barhaus i ddarparu mwy o gartrefi, yn enwedig drwy dai cymdeithasol, y gwyddom y gallant leihau tlodi, gwella iechyd corfforol a meddyliol, sbarduno twf economaidd ac, yn hollbwysig, rhoi diwedd ar ddigartrefedd."

**96.** Roedd rhai ymatebion i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid yn cyfeirio at ymchwil gan Alma Economics yn 2022 ar werth ataliol gwariant y llywodraeth ar dai. Canfu'r ymchwil y gallai pob £1 a fuddsoddir mewn darparu tai digonol yng Nghymru sicrhau £2.30 mewn buddion i feysydd gwariant eraill, gan gynnwys iechyd, cyfiawnder troseddol a llywodraeth leol.

**97.** Yn ein hadroddiad ar y gyllideb ddrafft flaenorol (2025-26), fe wnaethom argymell y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu dadansoddiad wedi ei ddiweddaru o fuddion a chostau buddsoddi mewn tai ac adfywio ar wariant cyhoeddus ehangach. Fe wnaethom ddweud y dylai'r dadansoddiad wedi ei

ddiweddaru gael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru i nodi blaenoriaethau gwariant ac i lywio trafodaethau'r Cabinet ar ddyrannu adnoddau i dai ac adfywio. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn a chytunodd fod "angen dadansoddiad wedi'i ddiweddaru". Yn ein hymateb i'n hadroddiad, nodwyd y bydd swyddogion Llywodraeth Cymru "yn mynd ati i gomisiynu adolygiad o waith presennol a dadansoddiad wedi'i ddiweddaru o hyn".

**98.** Mewn ymateb i'n cais am ddiweddariad ar y cynnydd wrth fwrw ymlaen â'r gwaith hwn, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod manteision buddsoddi mewn tai ar wariant cyhoeddus ehangach wedi hen ymsefydlu ac yn hysbys iawn, a chyfeiriodd at adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Savills yn ystod y mis hwn a oedd yn asesu effaith cymdeithasau tai yng Nghymru ar draws themâu allweddol, fel pobl, yr economi a gwasanaethau cyhoeddus, ac at werthusiad o'r rhaglen Trawsnewid Trefi a gomisiynwyd i werthuso effaith buddsoddiad ar gyfer cefnogi prosiectau adfywio yng Nghymru.

**99.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym y bydd hi bob amser yn gwthio am fwy o fuddsoddiad ar gyfer tai ac adfywio, a phwysleisiodd mai'r gyllideb ddrafft yw'r man cychwyn, ac nid diwedd y broses. Wrth gydnabod bod meysydd, gan gynnwys tai ac adfywio, lle gallai buddsoddiad ychwanegol wneud gwahaniaeth, dywedodd wrthym y bydd hi'n parhau i wthio hynny o fewn y Cabinet, a'i bod hi'n disgwyl y bydd y gyllideb derfynol yn edrych yn wahanol iawn.[22]

## Ein barn ni

**100.** Rydym yn deall y pwysau a'r gofynion sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd o ran y gyllideb ddrafft, ond fel y nodwyd yn argymhelliad 3, credwn y dylai Llywodraeth Cymru ymgorffori atal yn y broses o bennu cyllideb a chydnabod yr angen am newid sylfaenol tuag at ddarparu adnoddau ar gyfer gwasanaethau ataliol. Mewn blynyddoedd blaenorol, rydym wedi galw ar Lywodraeth Cymru i gynyddu'r dyraniad tai fel arwydd o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wireddu buddion ataliol gwariant ar dai ym maes iechyd a gwasanaethau eraill, yn ogystal â diwallu anghenion tai cenedlaethau'r dyfodol.

**101.** Rydym yn cydnabod ymrwymiad Ysgrifennydd y Cabinet i barhau i bwyso am fwy o fuddsoddiad mewn tai ac adfywio, ac yn deall yr heriau wrth gystadlu am adnoddau i gyllido'r amrywiaeth o flaenoriaethau sydd gan y llywodraeth.

[22] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 14

Fodd bynnag, rydym yn siomedig bod cyfanswm dyraniad y gyllideb ar gyfer tai ac adfywio yn 4.85 y cant, sy'n ostyngiad bach yn y ganran ers y llynedd.

**102.** Roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn glir ei bod hi'n disgwyl i'r gyllideb derfynol edrych yn wahanol i'r drafft, felly credwn y dylai hi ddefnyddio pob cyfle cyn y gyllideb derfynol i sicrhau cyllid ychwanegol ar gyfer tai ac adfywio. Gan fod cydnabyddiaeth eang i'r ffaith bod buddsoddi mewn tai yn darparu arbedion i wasanaethau cyhoeddus eraill, rydym yn ailadrodd ein barn a fynegwyd dros nifer o flynyddoedd y dylid blaenoriaethu tai ar gyfer unrhyw gyllid pellach sydd ar gael cyn cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu tai, fel gwasanaeth ataliol hanfodol, ar gyfer derbyn unrhyw gyllid pellach sydd ar gael cyn y gyllideb derfynol.

**103.** Mae'n siomedig, er gwaethaf derbyn ein hargymhelliad y llynedd ar gyfer dadansoddiad wedi ei ddiweddaru o fuddion cost buddsoddi mewn tai ac adfywio ar wariant cyhoeddus ehangach, mae'n ymddangos nad oes llawer o gynnydd wedi ei wneud o ran cyflawni'r ymrwymiad hwn. Er bod Ysgrifennydd y Cabinet wedi cyfeirio at waith gwerthuso arall sy'n cael ei wneud, nid yw'r naill na'r llall o'r ymarferion hynny yn asesu'n benodol fuddion cost buddsoddi mewn tai, ac nid yw'r naill na'r llall wedi cyfrannu at ystyried dyraniadau ar gyfer y gyllideb ddrafft hon.

**Casgliad 3.** Gallai argaeledd dadansoddiad cost-budd wedi ei ddiweddaru fod wedi bod yn ddefnyddiol i Ysgrifennydd y Cabinet wrth sicrhau canran uwch o'r gyllideb gyffredinol ar gyfer tai ac adfywio, ac rydym yn siomedig na fwriwyd ymlaen â'r argymhelliad a wnaethom y llynedd, er ei fod wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru fwrw ymlaen â datblygu dadansoddiad cost-budd wedi ei ddiweddaru o effeithiau buddsoddi mewn tai ac adfywio ar wariant cyhoeddus ehangach.

## Digartrefedd a chymorth tai

### Digartrefedd

**104.** Mae'r ystadegau diweddaraf yn dangos bod 10,876 o bobl mewn llety dros dro ar 30 Medi 2025, sy'n 4 y cant o ostyngiad ers 30 Medi 2024. Roedd 2,555 o'r rhain yn blant dibynnol o dan 16 oed, sy'n 11 y cant o ostyngiad ers 30 Medi 2024. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym, er bod y niferoedd mewn llety dros

dro yn gallu ymddangos yn eithaf statig, mewn gwirionedd mae cymaint o bobl yn cael eu symud i gartrefi parhaol.

**105.** Y gyllideb ddrafft ar gyfer Cymorth Digartrefedd ac atal yw £223.9 miliwn, sydd £4.7 miliwn (2.1 y cant) yn fwy na'r ffigur sylfaenol. Mae'r rhan fwyaf o'r gyllideb hon (£208.4 miliwn) ar gyfer y Grant Cymorth Tai, sy'n cael £4.1 miliwn (2 y cant) o gynnydd yn unol â chwyddiant. Bydd y cyllid ychwanegol sy'n weddill o fewn y BEL yn 2026-27 yn cael ei ddefnyddio i ddarparu cynnydd yn unol â chwyddiant o 2 y cant i brosiectau atal digartrefedd, gan gynnwys prosiectau Arloesi Ieuenctid, y rhaglen Tai yn Gyntaf a gwasanaethau cynghori. Bydd hefyd yn cyllido datblygu canllawiau a hyfforddiant newydd i ategu'r gwaith o weithredu'r Bil.

**106.** Fe wnaethom adrodd yn ddiweddar ar egwyddorion cyffredinol y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) fel rhan o waith craffu'r Senedd ar y Bil. Mae adnoddau ar gyfer gwasanaethau digartrefedd awdurdodau lleol a gwasanaethau a gyllidir gan Grant Cymorth Tai, yn ogystal â buddsoddiad cyfalaf mewn cyflenwi tai cymdeithasol, wedi cael eu hamlygu'n gyson gan dystion fel rhai hanfodol i lwyddiant y ddeddfwriaeth. Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif y bydd y Bil yn costio £325.8 miliwn dros gyfnod o 10 mlynedd (2026-27 i 2035-36), yn cynnwys:

- £15.3 miliwn mewn costau trosiannol, wedi eu rhannu ar draws Llywodraeth Cymru (£0.4 miliwn), awdurdodau lleol (£2.4 miliwn), cymdeithasau tai a'r sector cyhoeddus ehangach (£12.5 miliwn); a
- £310.6 miliwn mewn costau rheolaidd, y bydd y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu talu gan awdurdodau lleol (£302.4 miliwn). Bydd y swm sy'n weddill yn cael ei rannu rhwng Llywodraeth Cymru (£1.5 miliwn) a chymdeithasau tai a'r sector cyhoeddus ehangach (£6.6 miliwn).

**107.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amcangyfrif manteision ariannol o £1.195 biliwn dros gyfnod o 10 mlynedd oherwydd y gwelliant disgwyliedig mewn atal digartrefedd a rhyddhad o ganlyniad i'r Bil. Nodir ym mhapur Ysgrifennydd y Cabinet y bydd £2.3 miliwn ychwanegol yn cael ei ddyrannu i'r Grant Cynnal Refeniw i gynorthwyo awdurdodau lleol gyda chostau cyn gweithredu. Bydd hyn yn cwrdd â'r £2.5 miliwn o gostau amcangyfrifedig i awdurdodau lleol, ynghyd â £0.2 miliwn o'r BEL.

**108.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod y gyllideb yn cyflawni ymrwymiad yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer cyllid eleni i helpu

awdurdodau lleol i baratoi ar gyfer y Bil, sydd yn ei barn hi'n 'gadarn'. Pwysleisiodd mai pwrpas y cyllid yw ar gyfer gwaith yn ystod y cyfnod cyn gweithredu.

**109.** Dywedir yn ymateb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar y gyllideb ddrafft bod gwariant awdurdodau lleol ar ddigartrefedd yn 2025-26 wedi codi i £100.8 miliwn, i fyny o £86.8 miliwn yn 2024-25. Dywedir yn y papur bod grantiau tai a digartrefedd Llywodraeth Cymru yn gwneud cyfraniad at y costau hyn, a'i bod yn croesawu'r ffaith bod £21.32 miliwn wedi ei symud o'r Grant Atal Digartrefedd i'r Grant Cynnal Refeniw yn 2025-26. Fodd bynnag, mae'n dweud bod y cynnydd yn y galw yn parhau i fod yn 'ddi-baid', sy'n fwy na'r cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru a'r hyn y gellir ei adennill gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

**110.** O ran y gyllideb ddrafft y llynedd, fe wnaethom argymell y dylai Llywodraeth Cymru "barhau i roi pwysau ar Lywodraeth y DU i gynyddu'n sylweddol faint o'r Lwfans Tai Lleol y gall awdurdodau lleol ei hawlio am lety dros dro." Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn ac amlinellodd Ysgrifennydd y Cabinet ymdrechion ganddi hi a chydweithwyr yn y Cabinet i annog Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ailystyried cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol.

## Cymorth Tai

**111.** Y Grant Cymorth Tai yw prif ffrwd gyllido Llywodraeth Cymru ar gyfer atal digartrefedd a chynorthwyo byw'n annibynnol. Canfu gwaith ymchwil a wnaed gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd fod pob £1 a fuddsoddir yng ngwasanaethau'r Grant Cymorth Tai yn sicrhau £1.40 o arbedion net ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

**112.** Fe wnaethom ymgymryd ag ymchwiliad byr i gymorth tai i bobl agored i niwed yng ngwanwyn 2025 ac amlygodd ein hadroddiad broblemau, gan gynnwys pwysau ar yr gweithlu a chyllid annigonol ar gyfer gwasanaethau sy'n arwain at ddiffygion o ran y Cyflog Byw Gwirioneddol. O ystyried pwysigrwydd y Grant Cymorth Tai o ran cynorthwyo pobl sy'n agored i niwed i sicrhau tai ac, yn enwedig yng ngoleuni'r arbedion net y profwyd eu bod yn cael eu cyflawni drwy fuddsoddi ynddo, galwodd ein hadroddiad ar y Bil Digartrefedd am gynnydd sylweddol yn y Grant Cymorth Tai ar gyfer 2026-27. Derbyniwyd ein hargymhelliad mewn egwyddor.

**113.** Mae'r Grant Cymorth Tai wedi cael ei gynyddu £4.1 miliwn (2 y cant) i £208.4 miliwn, a dywedir ym mhapur Ysgrifennydd y Cabinet y bydd yn mynd at godiad cyflog i staff.

**114.** Dywedodd Llamau yn ei ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar y gyllideb ddrafft:

> *"Mae'n hanfodol bod y Grant Cymorth Tai yn parhau i dderbyn cynnydd canrannol o flwyddyn i flwyddyn i alluogi elusennau a darparwyr cymorth fel Llamau i barhau i ariannu cynnydd mewn Cyflog Byw Gwirioneddol, a fydd yn ei dro yn cefnogi recriwtio a chadw yn y sector sector… Rydym bob amser wedi ymdrechu i ddarparu gwasanaethau cymorth effeithiol o ansawdd uchel, ond mae'n anodd gweld sut y gellir cynnal gwasanaethau ar y lefel bresennol heb gynnydd mewn cyllid drwy'r Grant Cymorth Tai."*

**115.** Tynnodd Llamau sylw hefyd at y ffaith ei fod yn wynebu £500,000 o gostau blynyddol ychwanegol oherwydd cynnydd mewn Cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr. Fe wnaethom dynnu sylw yn ein hadroddiad ar y gyllideb ddrafft flaenorol at ein pryderon sylweddol am effaith bosibl y cyfraniadau cynyddol ar y sector cymorth tai a gallu sefydliadau i barhau i ddarparu eu gwasanaethau hanfodol.

**116.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym ei bod yn anodd meintioli effaith mwy o gyfraniadau Yswiriant Gwladol, ond cyfeiriodd at rywfaint o ddadansoddiad lefel uchel mewnol o effaith debygol y newidiadau i gyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr mewn perthynas â gwasanaethau a gyllidir drwy'r Grant Cymorth Tai, a gynhaliwyd gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid. Fodd bynnag, ychwanegodd bod cyfyngiadau sylweddol i'r dadansoddiad gan fod llawer o ffactorau gwahanol o fewn hynny o ran cyfansoddiadau staffio gyda sefydliadau unigol ac amrediadau cyflog.[23]

## Ein barn ni

**117.** Mae nifer y bobl sy'n byw mewn llety dros dro yn fater arall sydd wedi achosi pryder sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, ac rydym wedi tynnu sylw at hynny mewn sawl adroddiad. Er gwaethaf gostyngiad graddol yn nifer y plant dibynnol sy'n byw mewn llety dros dro, a sicrwydd Ysgrifennydd y Cabinet bod

[23] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 54

pobl yn cael eu symud i gartrefi parhaol, mae'r nifer yn parhau i fod yn rhy uchel. Mae'n amlwg bod y galw am lety dros dro yn parhau i roi pwysau ar awdurdodau lleol.

**118.** Rydym wedi adrodd yn ddiweddar ar egwyddorion cyffredinol y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru), sydd yn y tymor hwy yn anelu at atal pobl rhag bod angen llety dros dro neu gyfyngu arosiadau i gyfnodau byrrach. Fodd bynnag, ni fydd y ddeddfwriaeth honno yn cael ei gweithredu am sawl blwyddyn, ac yn y cyfamser mae angen i awdurdodau lleol allu talu costau darparu hyn i filoedd o bobl.

**119.** Rydym yn deall pa mor bwysig yw hi i awdurdodau lleol allu adennill symiau y gallant eu hawlio yn ôl gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i wrthbwyso costau rhent llety dros dro, a disgrifiwyd hyn i ni yn ystod ein gwaith craffu diweddar ar y Bil Digartrefedd fel un o'r pethau mwyaf a allai wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fforddiadwyedd llety dros dro i awdurdodau lleol. Rydym yn gwerthfawrogi bod Ysgrifennydd y Cabinet yn cytuno â ni ac wedi gwneud sylwadau i Lywodraeth y Deyrnas Unedig, ond mae'n siomedig nad yw'r gyfradd y gall awdurdodau lleol hawlio Lwfans Tai Lleol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cynyddu er 2011, er gwaethaf ymdrechion Llywodraeth Cymru.

**Casgliad 4.** Credwn y dylai Llywodraeth Cymru fod yn fwy rhagweithiol wrth bwyso am gynnydd yng nghyfraddau'r Lwfans Tai Lleol y gall awdurdodau lleol ei hawlio i wrthbwyso costau llety dros dro. Mae Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at Lywodraeth y Deyrnas Unedig, ond credwn fod angen ymdrechion mwy cadarn.

**120.** Mae'n siomedig na dderbyniwyd ein hargymhelliad i gynyddu'r Grant Tai Cymdeithasol yn sylweddol yn y gyllideb ddrafft hon yn llawn, ac rydym yn pryderu nad yw'r 2 y cant o gynnydd yn ddigonol. Er bod y gyllideb ddrafft wedi dyrannu cyllid ar gyfer gwaith cyn gweithredu sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth, credwn fod y Grant Tai Cymdeithasol yn cyfiawnhau cynnydd canrannol uwch yng ngoleuni'r manteision mae buddsoddi yn y gronfa yn eu cyflwyno i wasanaethau cyhoeddus ehangach, ac yn hanfodol i'r rhai sy'n derbyn gwasanaethau cymorth.

**Casgliad 5.** Mae'r Grant Cymorth Tai yn faes allweddol o wariant ataliol a dylid ei flaenoriaethu ar gyfer cyllid ychwanegol yn unol â'n hargymhellion 5 a 6.

**121.** Rydym yn parhau i bryderu am effaith cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar ddarparwyr gwasanaeth a'u gallu i ddiwallu angen cymorth yng

ngoleuni'r pwysau ariannol ychwanegol hwn. Rydym yn sylweddoli bod y Grant Tai Cymdeithasol wedi cael £21 miliwn o gynnydd yn y gyllideb ddiwethaf, ond nododd Ysgrifennydd y Cabinet yn glir ar y pryd fod hyn er mwyn galluogi darparwyr i dalu'r cyflog byw gwirioneddol i'w staff. Rydym yn gobeithio bod y sector wedi gallu defnyddio'r cyllid at ei bwrpas bwriadedig, ond nid ydym yn glir a oedd angen rhan o hyn i dalu'r costau Yswiriant Gwladol. Mae gennym ddiddordeb yn y gwaith dadansoddi y cyfeirir ato gan Ysgrifennydd y Cabinet ar effaith cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar wasanaethau a gyllidir drwy'r Grant Tai Cymdeithasol, a byddem yn ddiolchgar am ragor o wybodaeth am hyn, gan gynnwys a gafodd ei ddefnyddio (neu sut cafodd ei ddefnyddio) i bennu lefel y cynnydd yn y Grant Tai Cymdeithasol yn y gyllideb ddrafft hon.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi dadansoddiad y Sefydliad Astudiaethau Cyllid o effaith newidiadau i Gyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwyr ar wasanaethau a gyllidir gan y Grant Cymorth Tai, yn ogystal ag unrhyw ddadansoddiad arall o effeithiau ehangach y newidiadau hyn ar draws y trydydd sector a darparwyr eraill.

## Y cyflenwad tai

### Tai newydd fforddiadwy

**122.** Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel newydd i'w rhentu. Cafodd yr ystadegau darpariaeth tai fforddiadwy diweddaraf eu cyhoeddi ar 13 Tachwedd 2025, sy'n dangos bod 13,399 o gartrefi wedi eu sicrhau tuag at y targed o 20,000 erbyn mis Mawrth 2025. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys 936 o unedau tai cymdeithasol 'gwag' a ddygwyd yn ôl i'w defnyddio o ganlyniad i gyllid y Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol, yn dilyn argymhelliad gan y Tasglu Cartrefi Fforddiadwy.

**123.** Cyflawnwyd 3,530 o unedau fforddiadwy tuag at y targed yn 2024-25, a daethpwyd â 370 o unedau gwag ychwanegol yn ôl i ddefnydd. Mae hyn yn cynnwys 2,921 o unedau rhent cymdeithasol, 344 o unedau rhent canolradd, 162 o unedau rhannu perchnogaeth, a 103 arall a ddarparwyd gan ddarparwyr eraill.

**124.** Mewn datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 13 Tachwedd, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"Erbyn mis Mai 2026, rhagwelir y byddwn wedi darparu 18,652 o gartrefi carbon isel i'w rhentu yn y sector cymdeithasol – a disgwylir i'r prosiect cyflenwi yr ydym wedi'i sefydlu ddarparu*

*1,652 o unedau pellach erbyn diwedd 2026, gan ddod â'r cyfanswm i 20,304.”*

**125.** Y Grant Tai Cymdeithasol yw prif grant cyfalaf Llywodraeth Cymru sy’n cynorthwyo’r gwaith o ddatblygu tai cymdeithasol a fforddiadwy gan awdurdodau lleol a chymdeithasau tai. Cafodd y Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol ei chyflwyno yn 2022-23 i gynorthwyo prosiectau sy'n creu tai yn gyflym mewn ffordd hyblyg, gan gynnwys drwy gaffaeliadau, ailfodelu a dulliau adeiladu modern. Gall caffaeliadau fod ar gyfer llety parhaol neu lety dros dro tymor hwy ‘yn y cyfamser’. Nid oes gan y Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol ei llinell gyllideb ei hun ond caiff ei chyfuno â’r Grant Tai Cymdeithasol.

**126.** Yn ein hadroddiad ar y cyflenwad tai cymdeithasol, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2024, argymhellwyd y dylai Llywodraeth Cymru gynyddu'r dyraniad ar gyfer y Grant Tai Cymdeithasol ar y cyfle cynharaf posibl. Roedd ein hadroddiad Cyfnod 1 ar y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) hefyd yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynyddu’r Grant Tai Cymdeithasol yn sylweddol ar gyfer 2026-27, a dod o hyd i ffyrdd arloesol o godi cyllid.

**127.** Yn dilyn cyhoeddi argymhellion y Tasglu Tai Fforddiadwy ym mis Mai 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ym mis Mehefin ei bod wedi derbyn yr holl argymhellion ac y bydd yn sefydlu grŵp gweithredu.

**128.** Mae cyllideb ddrafft 2026-27 yn cynyddu’r Grant Tai Cymdeithasol £8.22 miliwn (2 y cant) o gymharu â’r ffigur gwaelodlin o £411 miliwn, ac yn dyrannu £26.775 miliwn ychwanegol mewn Cyfalaf Trafodiadau Ariannol i gefnogi Benthyciadau Datblygu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (o'i gymharu â £26.25 miliwn o Gyfalaf Trafodiadau Ariannol a ddyrannwyd yn 2025-26).

**129.** Dywedir ym mhapur Ysgrifennydd y Cabinet y bydd y cynnydd mewn cyllid craidd yn darparu mwy o gartrefi tra bod y cyllid benthyciadau wedi ei fwriadu i unioni methiant cyfredol y farchnad oherwydd bod y sector tai yn wynebu sawl her anodd, gan gynnwys cynnydd sylweddol mewn tendrau oherwydd codiadau mewn costau deunyddiau a chontractwyr yn cynnwys risg uwch yn y pris, chwyddiant cynyddol a chyfraddau llog a dyled ddrwg uwch a chyfraddau tai gwag.

**130.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet a swyddogion wrthym eu bod yn hyderus bod y 2 y cant o gynnydd yn y Grant Tai Cymdeithasol yn ddigonol i gyflawni targed Llywodraeth Cymru o 20,000 erbyn diwedd 2026.

## Ein barn ni

**131.** Rydym eisoes wedi nodi ein pryder ynghylch gallu Llywodraeth Cymru i gyrraedd ei tharged o 20,000 o gartrefi fforddiadwy newydd erbyn diwedd tymor y Senedd hon. Rydym yn croesawu'r sicrwydd a roddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet y bydd y targed hwn yn cael ei gyrraedd erbyn diwedd blwyddyn galendr 2026, er ychydig yn hwyrach na'r targed gwreiddiol. Mynegodd Ysgrifennydd y Cabinet hyder bod y 2 y cant o gynnydd a ddarparwyd ar gyfer y Grant Tai Cymdeithasol yn y gyllideb ddrafft hon yn ddigonol i ddarparu'r cartrefi sy'n weddill. Credwn y gallai hyn fod yn heriol wrth i chwyddiant a chostau adeiladu barhau'n uchel.

**Casgliad 6.** Yng ngoleuni diwygio chwyddiant ar i fyny yn dilyn Datganiad Cyllideb yr Hydref Llywodraeth y Deyrnas Unedig, nodwn fod llwyddiant Llywodraeth Cymru i gyflawni 20,000 o gartrefi erbyn diwedd 2026 yn dibynnu ar gyfres o dybiaethau a fydd yn heriol i'w cyflawni.

## Y sector rhentu preifat

**132.** Mae Cynllun Lesio Cymru yn cynorthwyo awdurdodau lleol i gymryd lesau hirdymor ar gartrefi sy'n cael eu rhentu'n breifat, i'w gwneud ar gael i gyflawni eu dyletswyddau digartrefedd. Lansiwyd y cynllun ym mis Ionawr 2022 ac mae'n rhedeg am bum mlynedd, hyd at fis Ionawr 2027. Mae'r gyllideb wedi cael 2 y cant o gynnydd i £3.57 miliwn.

**133.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, galwodd Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid Preswyl am ad-daliad o'r ardoll Treth Trafodiadau Tir o 5 y cant ar eiddo preswyl ychwanegol lle maent yn cael eu gosod drwy Gynllun Prydlesu Cymru, er mwyn cymell mwy o landlordiaid i ymuno â'r cynllun.

**134.** Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Cynllun Prydlesu Cymru bellach yn gweithredu ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol. Mae Llywodraeth Cymru yn anelu at 1 y cant o stoc y sector rhentu preifat (sy'n cyfateb i oddeutu 2,000 o eiddo) yn y cynllun erbyn diwedd 2027. Clywsom fod 486 o eiddo wedi dod yn rhan o'r cynllun a bod 600 arall ar y gweill. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym ei bod yn hyderus, gyda hyrwyddo a chefnogaeth barhaus, y bydd y targed 1 y cant o'r sector rhentu preifat yn cael ei gyflawni erbyn diwedd 2027.

## Ein barn ni

**135.** Rydym parhau i gefnogi Cynllun Lesio Cymru, ac eisiau ei weld yn llwyddo. Rydym yn croesawu'r cadarnhad bod pob un o'r 22 awdurdod lleol bellach yn

cymryd rhan yn y cynllun, sy'n ganlyniad rydym wedi bod yn galw amdano. Rydym yn croesawu'r diweddariad a ddarparwyd ar nifer yr eiddo a ddaeth i mewn i'r cynllun, ac yn nodi hyder Ysgrifennydd y Cabinet y bydd y targed o oddeutu 2,000 o gartrefi yn cael ei gyrraedd erbyn i'r cynllun ddod i ben yn 2027. Er gwaethaf optimistiaeth o'r fath, rydym yn amheus ynghylch a yw hyn yn gyraeddadwy o ystyried bod y ffigurau presennol yn dangos y bydd angen dod â bron i 1,000 yn rhagor o gartrefi i mewn i'r cynllun yn ystod 2026-27. Rydym yn gobeithio y bydd y targed hwn yn cael ei gyflawni ac yn annog Llywodraeth Cymru i barhau â'r ymdrechion i godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun ymhlith asiantau gosod a gwerthwyr tai.

## Tai’r farchnad agored

**136.** Mae’r gyllideb ddrafft yn cynnwys £83.63 miliwn o ddyraniad cyfalaf i gynorthwyo tai'r farchnad agored a chynlluniau eraill. Mae hyn yn cynnwys £25.5 miliwn ar gyfer y Grant Cartrefi Gwag, yn unol â'r llynedd. Yn 2025-26 roedd 22,558 o gartrefi gwag yng Nghymru a oedd yn gorfod talu treth gyngor, sy’n 76 yn llai nag yn 2024-25.

**137.** Yn ystod gwaith craffu ar gyllideb ddrafft y llynedd ym mis Ionawr 2025, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod Llywodraeth Cymru yn 'adolygu’r' cynllun i edrych ar rwystrau sydd o ran defnyddio’r cynllun. Fe wnaethom argymell y dylai Llywodraeth Cymru roi manylion am faint o’r Grant Cartrefi Gwag a wariwyd yn 2023-24 a’r gwariant a ragwelir ar gyfer 2024-25. Mewn ymateb, dywedodd Llywodraeth Cymru y gwariwyd £1.7 miliwn yn 2023-24, a rhagwelwyd y byddai £5-6 miliwn yn cael ei wario yn 2024-25. Roedd y buddsoddiad hwn wedi rhoi’r modd i 184 o gartrefi gael eu defnyddio eto. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei gwerthusiad o'r cynllun Grant Cartrefi Gwag rhwng mis Ebrill a mis Medi 2025 ar 20 Tachwedd, yr un diwrnod â'n sesiwn graffu.

**138.** Gan ddefnyddio data hyd at Ebrill 2025, nodwyd yn yr adroddiad gwerthuso fod y cynllun wedi cael 2,692 o geisiadau, ac ystyriwyd bod 1,058 ohonynt yn ddilys. Roedd 582 o eiddo wedi eu cymeradwyo ar gyfer y grant, a chyfanswm gwerth y grantiau a gymeradwywyd oedd £13.2 miliwn (grant cyfartalog o dros £22,500). Roedd 241 o eiddo wedi cyrraedd y pwynt cwblhau, ac wedi cael £5.4 miliwn yn y Grant Cartrefi Gwag. Mae hyn yn cyfateb i 12.1 y cant o’r uchelgais o 2000 o gartrefi ar gyfer y cynllun grant, ac fe’i cyflawnwyd gyda 10.8 y cant o’r cyllid o £50 miliwn yn y cynllun grant.

**139.** Mae'r gyllideb ddrafft yn cynnig £58.14 miliwn mewn Cyfalaf Trafodiadau Ariannol i ymestyn cynllun Cymorth i Brynu - Cymru am flwyddyn. Yn ystod gwaith craffu ar y gyllideb y llynedd, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ystyried diwygiadau posibl i'r cynllun yng ngoleuni gwerthusiad a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2024. Clywsom gan Ysgrifennydd y Cabinet fod 159 o bryniannau gan ddefnyddio'r cynllun yn chwarter cyntaf 2025-26, ac mae mwy na 50 o ddatblygwyr, mentrau bach a chanolig yn bennaf, wedi eu cofrestru ac yn elwa ar y cwsmeriaid newydd hynny.

**140.** Fe wnaethom ddod i'r casgliad yn ein hadroddiad y llynedd y dylai Llywodraeth Cymru ystyried a allai'r trothwy ar gyfer eiddo a brynwyd drwy'r cynllun fod yn rhy uchel, sef £300,000; a ddylid ei gyfyngu i brynwyr tro cyntaf; ac a ddylai'r cynllun barhau o gwbl. Derbyniodd Llywodraeth Cymru y casgliad hwn. Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y cap prisiau yn cael ei adolygu ar ysbeidiau a'i fod wedi cael ei gynyddu yn ôl i £300,000 yn 2023 ar ôl cael ei ostwng i £250,000 yn 2021.[24]

**141.** Roedd tystiolaeth gan y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi yn galw am i Cymorth i Brynu - Cymru barhau, gan gyfeirio at ei ymchwil ei hun a ganfu fod y cynllun wedi cefnogi 4,400 o swyddi ac wedi creu £240 miliwn mewn gweithgarwch economaidd bob blwyddyn ar gyfartaledd ers iddo gael ei gyflwyno yn 2014. Galwodd hefyd am gynnydd ar y trothwy prisiau i £350,000, gan fod y pris gwerthu cyfartalog ar gyfer cartref newydd yng Nghymru yn uwch na £300,000.

**142.** Daeth y gwerthusiad o gynllun Cymru i'r casgliad bod Cymorth i Brynu - Cymru yn boblogaidd ymhlith prynwyr a'i fod wedi helpu adeiladwyr tai, er nad yw'n mynd i'r afael â'r achosion mwyaf dybryd o angen cyhoeddus. Nododd y gwerthusiad ei bod yn anarferol nad yw Cymorth i Brynu - Cymru wedi ei gyfyngu i brynwyr tro cyntaf, yn wahanol i gynlluniau eraill sy'n cynorthwyo perchentyaeth ledled y Deyrnas Unedig.

**143.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod angen y cynllun yn ei barn hi, ond bod swyddogion wedi bod yn ystyried yr holl newidiadau posibl i'r cynllun, yn enwedig pethau fel y cap prisiau. Ychwanegodd ei fod ar gael i'r rhai sydd ei angen, ond ers mis Ebrill 2022, mae 85 y cant o'r bobl hynny sydd wedi ei ddefnyddio wedi bod yn brynwyr tro cyntaf.[25]

---

[24] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 158
[25] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 157

## Ein barn ni

**144.** Nodwn fod y gyllideb ddrafft hon yn cynnwys £25.5 miliwn ar gyfer y Grant Cartrefi Gwag. Mae'n siomedig nad oedd gwerthusiad Llywodraeth Cymru o'r Grant ar gael tan ddiwrnod ein sesiwn graffu, gan ein hatal rhag gallu ystyried ei gasgliadau ymlaen llaw a'u trafod gydag Ysgrifennydd y Cabinet. Fodd bynnag, nodwn fod y gwerthusiad wedi canfod bod rhywfaint o oedi wrth gymeradwyo grant a bod diffyg eglurder ar feini prawf cymhwysedd y cynllun, sydd wedi arwain at ddryswch a siom i ymgeiswyr.

**145.** Mae eiddo gwag yn effeithio ar gymunedau ledled Cymru ac yn adnodd sy'n cael ei wastraffu, felly mae'n bwysig bod pob awdurdod lleol yn defnyddio pob offeryn posibl i fynd i'r afael â'r mater hwn, fel y pwysleisiwyd yn flaenorol. Gan hynny, rydym yn pryderu am y cynnydd araf o ran gwario'r £50 miliwn a ddyrannwyd yn wreiddiol tuag at y cynllun Grant Cartrefi Gwag. Mae'r ffrwd grant hon wedi cael ei thanwario'n gyson dros nifer o flynyddoedd. Rydym yn pryderu nad yw Llywodraeth Cymru yn delio â mater tai gwag ar ddigon o frys.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn cyflymu'r gostyngiad yn nifer y tai gwag ac yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn y gwerthusiad o’r cynllun Grant Tai Gwag.

**146.** Rydym yn parhau i gefnogi nodau Cynllun Cymorth i Brynu – Cymru ac yn cydnabod ei fod wedi helpu llawer o bobl i brynu eu cartref cyntaf. Er ein bod ni’n synnu bod uchafswm gwerth yr eiddo a brynwyd drwy'r Cynllun yn parhau i fod mor uchel â £300,000, rydym yn gwerthfawrogi bod prisiau tai yn amrywio ledled Cymru. Er ein bod ni’n cefnogi egwyddor y cynllun, credwn y dylai fod yn cynorthwyo'r rhai sydd yn yr angen mwyaf, ac rydym yn pryderu bod gwerthusiad wedi canfod nad yw'n gwneud hynny.

**147.** Rydym yn parhau i bryderu nad yw'r cynllun wedi ei gyfyngu i brynwyr tro cyntaf, ac yn nodi bod y gwerthusiad hefyd wedi canfod bod hyn yn anarferol. Rydym yn cydnabod bod y mwyafrif o bobl a gafodd gymorth drwy'r cynllun wedi bod yn brynwyr tro cyntaf, ond os mai'r nod yw helpu'r rhai sydd fwyaf angen help, rydym yn parhau i gwestiynu a ddylid gosod cyfyngiad o'r fath ar y cynllun ac yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru ystyried hyn ymhellach.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried ymhellach a ddylid cyfyngu'r Cynllun Cymorth i Brynu – Cymru i brynwyr tro cyntaf, yn enwedig a fyddai cyfyngiad o'r fath yn sicrhau bod y cynllun yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r achosion mwyaf dybryd o angen ymhlith y cyhoedd.

## Diogelwch adeiladau

**148.** Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i ddiwygio'r system diogelwch adeiladau bresennol, gan gynnwys ail gam Cronfa Diogelwch Adeiladau Cymru, fel bod pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi. Mae gan ddiogelwch adeiladau ddyraniad refeniw o £4.543 miliwn, nad yw wedi newid ers y gyllideb sylfaenol, a £130.224 miliwn o ddyraniad cyfalaf, sydd 2 y cant yn uwch na'r llinell sylfaen.

### Gwaith adfer

**149.** Darperir cyllid drwy Raglen Adfer Diogelwch Adeiladau Cymru i nodi a mynd i'r afael â materion diogelwch tân mewn adeiladau canolig ac uchel iawn.

**150.** Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet ar y pryd, Julie James AS, £375 miliwn dros dair blynedd (rhwng 2022-23 a 2024-25) i fuddsoddi mewn gwaith atgyweirio. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dadansoddiad manwl o sut cyfrifwyd y £375 miliwn hyd yma.

**151.** Fodd bynnag, mae adroddiadau alldro Llywodraeth Cymru yn darparu ffigurau ar gyfer gwariant blynyddol pob BEL, gan gynnwys BEL refeniw a chyfalaf Diogelwch Adeiladau:

| | Refeniw diogelwch adeiladau | | Cyfalaf diogelwch adeiladau | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb £000 | Alldro £000 | Cyllideb £000 | Alldro £000 |
| 2021-22 | 5,545 | 1,522 | 20,000 | 26,680 |
| 2022-23 | 8,545 | 4,087 | 75,000 | 61,962 |
| 2023-24 | 3,900 | 2,810 | 90,000 | 8,697 |
| 2024-25 | 4,500 | - | 60,000 | - |
| 2025-26 | 4,530 | - | 55,670 | - |

**152.** Y cyfanswm a ddyrannwyd i ddiogelwch adeiladau ar draws y tair blynedd rhwng 2022-23 a 2024-25 oedd £241.945 miliwn, sef £16.945 miliwn o refeniw a £225 miliwn o gyfalaf. Mae hyn yn £133.055 miliwn yn llai nag yr addawodd yr Ysgrifennydd y Cabinet blaenorol ei ddarparu dros y tair blynedd hynny.

**153.** Am y tair blynedd diwethaf bu ailddyrannu canol blwyddyn o'r gyllideb gyfalaf Diogelwch Adeiladau:

- Ym mis Chwefror 2024, gostyngodd yr ail gyllideb atodol ar gyfer 2023-24 y BEL cyfalaf diogelwch adeiladau £45 miliwn, o £135 miliwn i £90 miliwn
- Ym mis Chwefror 2025, gostyngodd yr ail gyllideb atodol ar gyfer 2024-25 y BEL cyfalaf diogelwch adeiladau £67.67 miliwn, o £127.67 miliwn i £60 miliwn
- Ym mis Mehefin 2025, gostyngodd y gyllideb atodol gyntaf ar gyfer 2025-26 y BEL cyfalaf diogelwch adeiladau £72 miliwn, o £127.67 miliwn i £55.67 miliwn.

**154.** Fe wnaethom fynegi pryder yn ein hadroddiad at y gyllideb ddrafft ar gyfer 2025-26 ynghylch maint y tanwariant cyfalaf a refeniw ar gyfer 2023-24, ac fe wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet esbonio'r rhesymau dros y tanwariant hwn, a pha gyfran o'r cyllidebau cyfalaf a refeniw mae hi'n disgwyl y bydd yn cael ei gwario yn 2024-25. Fe wnaethom hefyd ofyn am esboniad ynghylch y cwestiwn a gafodd tanwariant 2023-24 ei ailbroffilio ac, os felly, sut.

**155.** Ym mis Medi 2025, o'r 459 o adeiladau yn y rhaglen adfer, roedd 44 y cant naill ai wedi eu cwblhau neu'n mynd rhagddynt. Roedd gwaith wedi ei gwblhau ar 83 o adeiladau ac roedd gwaith yn mynd rhagddo ar 119 o adeiladau. O'r 163 o adeiladau mae datblygwyr yn gyfrifol am eu hadfer, roedd 33 y cant naill ai wedi eu cwblhau neu'n mynd rhagddynt. Mae gwaith wedi ei gwblhau ar 6 adeilad ac mae'n mynd rhagddo ar 48 adeilad.[26]

**156.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod y gronfa diogelwch adeiladu yn rhaglen sy'n cael ei harwain gan y galw, a bod yr ailbroffilio wedi ei wneud ar sail y ceisiadau am gymorth a ddaeth i law a'r proffiliau cyflawni prosiect. Ychwanegodd fod yr ailbroffilio'n golygu bod Llywodraeth Cymru yn gallu defnyddio'r balansau i gynorthwyo'r gwaith o ddarparu mwy o gartrefi, a bod y Llywodraeth wedi ymrwymo i gynorthwyo cynnydd adfer a gwneud yn siŵr bod hynny ar y cyflymder iawn.[27]

**157.** Cafodd Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru) ei gyflwyno i'r Senedd ar 7 Gorffennaf 2025. Dywedir ym mhapur Ysgrifennydd y Cabinet y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu ag awdurdodau lleol ac eraill i ddeall goblygiadau'r ddeddfwriaeth o ran adnoddau a'r gweithlu.

---

[26] Rhaglen Diogelwch Adeiladau Cymru, Medi 2025
[27] Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 164-165

## Ein barn ni

**158.** Fel y nodwyd yn ein hadroddiadau blaenorol, gan gynnwys ein hadroddiad ar y Bil Diogelwch Adeiladau, mae cyflymder gwneud gwaith adfer ar adeiladau preswyl uchel iawn wedi bod yn destun pryder sylweddol ers amser i bobl sy'n byw yn yr adeiladau dan sylw a hefyd i lesddeiliaid sy'n landlordiaid. Rydym yn gwerthfawrogi sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch eisiau gweld gwaith adfer yn cael ei wneud yn gyflym, ond rydym yn parhau i glywed gan randdeiliaid sy'n dal i fod yn rhwystredig ynghylch cyflymder y cynnydd.

**159.** Rydym yn parhau i bryderu am lefel y tanwariant yn y BEL cyfalaf ar gyfer diogelwch adeiladau sy'n arwain at ailbroffilio arian o'r gronfa honno i gyllidebau eraill. Rydym yn nodi bod y swm o arian sy'n cael ei ail-broffilio bob blwyddyn fel pe bai'n cynyddu, sy'n bryder neilltuol. Rydym yn cydnabod sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet bod y gronfa yn cael ei harwain gan y galw, ond o ystyried graddfa'r gwaith adfer sydd ei angen o hyd, rydym yn ei chael hi'n anodd deall pam mae lefel y galw yn ddigon isel i arwain at danwariant o'r fath.

**Casgliad 7.** Dros nifer o flynyddoedd, rydym wedi codi'r angen dybryd i gyflymder y gwaith adfer ar adeiladau preswyl uchel iawn gynyddu, a byddwn yn parhau i wneud hynny. Er gwaethaf hyn, ac er gwaethaf y sicrwydd a roddwyd gan Lywodraeth Cymru bod ymgymryd â'r gwaith adfer yn flaenoriaeth, rydym yn bryderus iawn bod lesddeiliaid yn parhau i godi pryderon sylweddol gyda ni am y diffyg cynnydd. Mae'r tanwariant parhaus o'r gronfa hon yn dangos nad yw'r dull presennol o ymdrin â gwaith adfer wedi arwain at waith yn cael ei wneud ar y cyflymder angenrheidiol. Dewisodd Ysgrifennydd y Cabinet beidio defnyddio'r Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru) i ddeddfu ar y gwaith hwn, a arweiniodd atom yn argymell y dylid cyflwyno darpariaethau ar gyfer dyddiadau cau a sancsiynau y gellir eu gorfodi'n gyfreithiol mewn perthynas ag adfer, ac ar gyfer cosbau am fethiannau gan ddatblygwyr i fynd i'r afael â diffygion.

**160.** Fe wnaethom fynegi pryderon yn ein hadroddiad ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2025-26 ynghylch maint y tanwariant cyfalaf a refeniw yn 2023-24, ac fe wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet esbonio'r rhesymau dros y tanwario hwn, a pha gyfran o'r cyllidebau cyfalaf a refeniw y mae'n disgwyl iddynt gael eu gwario yn 2024-25. Fe wnaethom ofyn hefyd am esboniad ynghylch a gafodd tanwariant 2023-24 ei ailbroffilio ac, os felly, sut y digwyddodd hynny. Rydym yn ailadrodd ein galwad ar gyfer eleni ac yn gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu'r un wybodaeth hon ar gyfer 2024-25 a 2025-26.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut cafodd tanwariant yn y Grant Cyfalaf Diogelwch Adeiladu ar gyfer 2024-25 ei ailbroffilio a faint o danwariant a ddisgwylir ar gyfer 2025-26.

## Safonau tai

### Arolwg Tai Cymru

**161.** Ym mis Mai 2025 cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet 'arolwg tai llawn yng Nghymru' ar gyfer 2027-28, wedi ei fodelu ar Arolwg Tai Lloegr. Yn y cyhoeddiad, dywedodd y byddai'r arolwg mewn dwy ran: arolwg cymdeithasol, ac arolwg cyflwr yn seiliedig ar archwiliadau ffisegol o gartrefi.

**162.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod swyddogion Llywodraeth Cymru yn datblygu manyleb dendro fanwl, fel y gall ymarfer caffael ddechrau erbyn diwedd 2025-26 a fydd yn fodd o gynnal gwaith maes yn 2027-28, gyda phrif ganlyniadau ar gael o 2028-29 a chanfyddiadau manylach o 2029-30. Clywsom fod disgwyl i'r rhan fwyaf o'r gwariant gael ei wneud ym mlwyddyn 2027-28 a bod costau amcangyfrifedig wedi eu cynnwys ar gyfer 2026-27 ymlaen.[28]

### Ein barn ni

**163.** Nodwn sicrwydd Ysgrifennydd y Cabinet bod y costau amcangyfrifedig ar gyfer y gwariant sydd ei angen yn 2026-27 i baratoi ar gyfer arolwg tai llawn yng Nghymru wedi eu cynnwys yn y gyllideb ddrafft hon.

### Rhaglen Datgarboneiddio a Chartrefi Cynnes

**164.** Mae'r Rhaglen Lywodraethu'n ymrwymo i ddatgarboneiddio rhagor o gartrefi drwy ôl-osod, gan ddarparu swyddi, hyfforddiant ac arloesi o safon gan ddefnyddio cadwyni cyflenwi lleol. Mae gan y BEL Datgarboneiddio Preswyl ac Ansawdd £1.68 miliwn o ddyraniad refeniw, nad yw wedi newid o'r gyllideb sylfaenol, a £96.9 miliwn o ddyraniad cyfalaf, sydd 2 y cant yn uwch na'r llinell sylfaen.

**165.** Dywedir ym mhapur Ysgrifennydd y Cabinet y bydd y cyllid cyfalaf yn cael ei ddefnyddio'n bennaf i gynorthwyo datgarboneiddio yn y sector tai cymdeithasol, drwy ddarparu'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio. Roedd Cam 3 y Rhaglen

[28] Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 174

Ôl-osod i fod i redeg yn wreiddiol rhwng 2022 a 2025, ond mae bellach wedi ei ymestyn i 2027.

**166.** Yn ôl Cartrefi Cymunedol Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyfuno'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio gyda chyllid i gynorthwyo'r gwaith o weithredu Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC 2023). Fel rhan o'r Safon honno, bydd disgwyl i bob cartref cymdeithasol gyrraedd safon Tystysgrif Perfformiad Ynni C erbyn mis Mawrth 2030, a chyflawni Tystysgrif Perfformiad Ynni A yn y tymor hwy.

**167.** Croesawodd Cartrefi Cymunedol Cymru y symudiad i ddod â'r ffrydiau cyllido hyn at ei gilydd i'w gwneud yn haws i gymdeithasau tai wneud cais amdanynt, ond dywedodd ei bod hi'n hanfodol ein bod ni'n gweld cynnydd yn y gronfa hon yn ogystal â pharhau i archwilio llwybrau cyllid arloesol ar gyfer cyllido datgarboneiddio ar fyrder. Cyfeiriwyd at ymchwil a gomisiynwyd gan Cartrefi Cymunedol Cymru a ganfu bod cyfanswm y buddsoddiad sydd ei angen i gwrdd â SATC a chyflawni sero net yn £130,000 yr eiddo.

**168.** Mae'r gyllideb gyfalaf hefyd yn cynnwys £3.06 miliwn o Gyfalaf Trafodiadau Ariannol i ymestyn Cynllun Cartrefi Gwyrdd Cymru i mewn i 2026-27. Mae'r cynllun yn darparu benthyciadau ôl-osod i berchnogion-feddiannwyr sy'n barod i fuddsoddi mewn effeithlonrwydd ynni a gwres carbon isel ond nad oes ganddynt y cyfalaf ymlaen llaw.

**169.** Ym mis Hydref 2024, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig y bydd map llwybr a chynllun gweithredu ar gyfer datgarboneiddio cartrefi yng Nghymru yn cael ei gyhoeddi yn fuan. Ym mis Mehefin 2025, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Llywodraeth Leol a Thai fod y map llwybr yn cael ei adolygu cyn ei gwblhau, ac y byddai'n cael ei gyhoeddi cyn gynted â phosibl ar ôl i'r camau hyn ddod i ben.

**170.** Mewn diweddariad ar gyhoeddi'r map llwybr, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod unrhyw gam a gymerir yng Nghymru yn cael ei ddylanwadu'n gryf gan bolisïau Llywodraeth y Deyrnas Unedig mewn meysydd a gedwir yn ôl, a chyfeiriodd at Gynllun Cartrefi Cynnes Llywodraeth y Deyrnas Unedig, sydd bellach wedi ei ohirio, ac y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi erbyn diwedd 2025 erbyn hyn. Cyfaddefodd ei bod hi wedi gobeithio y byddai'r cynllun cartrefi cynnes wedi cael ei gyhoeddi erbyn hyn, ond o ystyried yr angen i

ddadansoddi effaith y cynllun a'r map llwybr, mae'n debygol y bydd cyhoeddi'r map llwybr yn benderfyniad i'r Llywodraeth nesaf.[29]

**171.** Mae'r cyllid cyfalaf ar gyfer y Rhaglen Cartrefi Cynnes wedi cynyddu 2 y cant o £37.5 miliwn i £38.25 miliwn tra bod y dyraniad adnoddau wedi aros yr un fath ar £3.73 miliwn.

**172.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth ddiweddaraf i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn 2021. Pennodd darged, erbyn 2035, na fydd mwy na 5 y cant o aelwydydd Cymru mewn tlodi tanwydd, ac na fydd yr un aelwyd mewn tlodi tanwydd parhaus neu ddifrifol. Mae diweddariad data diweddaraf Llywodraeth Cymru yn dangos bod amcangyfrif o 25 y cant o aelwydydd Cymru ym mis Hydref 2024 yn byw mewn tlodi tanwydd, gydag amcangyfrif o 5 y cant o aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd difrifol.

**173.** Dechreuodd iteriad diweddaraf y Rhaglen Cartrefi Cynnes ym mis Ebrill 2024, ac yn gynnar yn 2025 cynhaliodd Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd waith dilynol ar yr ymchwiliad i dlodi tanwydd.

**174.** Dywedodd rhanddeiliaid wrth y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol nad yw lefel y buddsoddiad yn y Rhaglen Cartrefi Cynnes unman yn agos at yr hyn sydd ei angen, ac na fyddai gwaith i gyrraedd yr holl aelwydydd tlawd o danwydd yng Nghymru ar y cyflymder presennol yn cael ei gwblhau tan y flwyddyn 2160. Amlinellodd Llywodraeth Cymru fod cap cyllideb fesul aelwyd wedi cynyddu o dan y cynllun newydd. Fodd bynnag, cydnabu y bydd gwaith ôl-osod drytach a mwy trylwyr yn effeithio ar nifer yr aelwydydd a gynorthwyir. Roedd yn rhagweld y byddai'n cynorthwyo 1,500 o ddeiliaid tai y flwyddyn, o gymharu â chyfartaledd o 4,000 o dan y cynllun blaenorol.

**175.** Fe wnaeth y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol nifer o argymhellion, gan gynnwys y dylai Llywodraeth Cymru:

> *"ymrwymo i sicrhau bod unrhyw gyllid ychwanegol gan gynnwys unrhyw danwariant, neu arian canlyniadol fformiwla Barnett sy'n deillio o gynnydd mewn cyllid ar gyfer trechu tlodi tanwydd yn Lloegr, yn cael ei fuddsoddi yn y Rhaglen Cartrefi Clyd."*

[29] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 182

**176.** Yn ei hadolygiad gwariant ar gyfer 2025, ymrwymodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig £13.2 biliwn ar gyfer ei Chynllun Cartrefi Cynnes dros y cyfnod adolygu (2025-26 i 2029-30), gan gynnwys cyllid canlyniadol Barnett.

**177.** O ran tlodi tanwydd, cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet bryderon a godwyd gennym ni a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, gan nodi mai dim ond dechrau'r broses yw'r gyllideb ddrafft, ac y gallai llawer newid cyn mis Ionawr.[30] Dywedodd wrthym nad oes ganddi fanylion eto am y cyllid canlyniadol o ganlyniad i fuddsoddi yn y Cynllun Cartrefi Cynnes, ond ei bod hi'n edrych ymlaen at ei weld a sut bydd yn cael ei rannu ar draws blynyddoedd ariannol.[31]

## Ein barn ni

**178.** Mae'n siomedig nad yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r map llwybr na'r cynllun gweithredu ar gyfer Cymru o hyd, er bod y problemau gyda'r daith ddatgarboneiddio wedi eu codi gennym ni a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith. Rydym wedi codi pryder o'r blaen bod y gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer datgarboneiddio tai cymdeithasol yn annigonol, ac o ystyried mai dim ond 2 y cant mae'r cyllid wedi cynyddu eleni mae ein pryderon yn parhau. Yn ein hadroddiad a gyhoeddwyd yn 2024 ar y cyflenwad o dai cymdeithasol, fe wnaethom dynnu sylw at sut mae'r ansicrwydd parhaus ynghylch sut caiff datgarboneiddio ei gyllido yn amharu ar y cyflenwad o dai cymdeithasol. Er bod ein galwad am fwy o sicrwydd o ran cyllid wedi cael ei derbyn mewn egwyddor, unwaith eto nid yw'r gyllideb hon yn darparu unrhyw sicrwydd pellach y bydd landlordiaid cymdeithasol yn cael eu cynorthwyo'n ariannol i gyflawni sero net.

**179.** Rydym yn parhau i bryderu nad yw map llwybr a chynllun gweithredu ar gyfer datgarboneiddio wedi eu cyhoeddi eto, ac y bydd hyn yn atal Llywodraeth Cymru rhag cyflawni ei hamcanion Sero Net ei hun ar ddatgarboneiddio cartrefi yng Nghymru.

**180.** Nodwn y cynnydd bychan (£0.75 miliwn) mewn cyllid cyfalaf ar gyfer y Rhaglen Cartrefi Cynnes. Rydym yn pryderu, yng ngoleuni'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, mae'n bosibl na fydd hyn yn ddigon i drechu tlodi tanwydd ledled Cymru. Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn aros am ragor o fanylion am gyllid

[30] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 191
[31] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 195

canlyniadol Barnett i Gymru o ganlyniad i Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn ymrwymo £13.2 biliwn ar gyfer ei Chynllun Cartrefi Cynnes yn ei hadolygiad gwariant yn 2025. Er y gallai hyn arwain at ddyrannu cyllid canlyniadol i'r Rhaglen Cartrefi Cynnes, mae'n hanfodol bod y gyllideb bresennol, ac unrhyw gyllideb ychwanegol, yn cael ei defnyddio i gael yr effaith orau. Hoffem i Lywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am gyfran y dyraniad cyllideb Cartrefi Cynnes a wariwyd y llynedd, a faint y disgwylir y bydd yn cael ei wario eleni.

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi ffigurau sy'n dangos faint o gyllid Cartrefi Cynnes a wariwyd yn ystod 2024-25, a faint y disgwylir y bydd yn cael ei wario yn 2025-26.

## Addasiadau a chyflwr gwael peryglus

**181.** Mae'r Rhaglen Addasiadau Brys yn cynorthwyo addasiadau ar draws pob deiliadaeth, drwy'r cynllun Hwyluso, y Grant Addasiadau Ffisegol, a thrwy asiantaethau Gofal a Thrwsio. Nid yw'n cynnwys y Grant Cyfleusterau i'r Anabl, sy'n cael ei gyllido o adnoddau cyfalaf cyffredinol yr awdurdodau lleol eu hunain.

**182.** Mae dyraniad cyfalaf y Rhaglen Addasiadau Brys yn cael 2 y cant o gynnydd i £25.5 miliwn, tra bod y £6.358 miliwn o ddyraniad refeniw yn parhau i fod ar lefel sylfaenol.

**183.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Gofal a Thrwsio Cymru fod ei wasanaeth Rhaglen Addasiadau Brys wedi atal bron i 3,700 o bobl hŷn rhag cael eu derbyn i'r ysbyty yn 2024-25, gan arbed ychydig o dan 43,000 o ddiwrnodau gwelyau'r GIG. Dywedodd ei fod o'r farn bod hyn yn achos cryf dros fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru i gynyddu buddsoddiad yn y Rhaglen Addasiadau Brys, yn enwedig yn wyneb pwysau ar draws gwasanaethau cyhoeddus ar hyn o bryd ac yn y dyfodol sy'n deillio o boblogaeth sy'n heneiddio, ac sy'n wael eu hiechyd. Ailadroddodd Gofal a Thrwsio Cymru ei alwad am grant rhwyd ddiogelwch i unioni achosion o gyflyrau gwael peryglus, gan nodi:

> *"There is a significant policy and funding gap for serious, urgent, emergency repairs for older people living in the owner-occupied sector who Care & Repair see daily, who cannot afford to get works done, and where there are no funding solutions available."*

**184.** Yn ein hadroddiad ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2024-25, fe wnaethom gefnogi'r alwad gan Gofal a Thrwsio am gyflwyno grant newydd. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn mewn egwyddor, gan nodi bod

amrywiaeth eang o gymorth wedi ei gyllido eisoes ar gael drwy'r Rhaglen Byw'n Annibynnol.

**185.** Mewn ymateb i'n cwestiwn ynghylch a fyddai Llywodraeth Cymru yn cefnogi grant cyflwr gwael peryglus, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym nad yw hi o'r farn y byddai'n briodol gwneud hynny, gan y gall cartrefi gael eu hystyried fel ased i fenthyca yn eu herbyn.[32]

### Ein barn ni

**186.** Rydym yn nodi gyda rhywfaint o siom amharodrwydd Ysgrifennydd y Cabinet i dderbyn yr alwad am grant cyflwr gwael peryglus gan y gallai hyn fod yn ddefnyddiol i'r rhai sydd, er eu bod yn berchen ar eu cartref eu hunain, yn methu fforddio'r costau o ymgymryd â gwaith i atgyweirio peryglon. Rydym yn cydnabod sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch cartref fel ased, ond nodwn nad yw hyn yn rhwystr i ddarparu cyllid grant mewn amgylchiadau eraill - er enghraifft, cartrefi gwag. Rydym yn dal o'r farn y gallai fod yn werth archwilio hyn ymhellach ar gyfer y bobl sydd fwyaf angen cymorth ariannol, ac rydym yn croesawu ymrwymiad Ysgrifennydd y Cabinet i barhau i weithio gyda Gofal a Thrwsio ar hyn.

## Tir

**187.** Lansiwyd Is-adran Tir Llywodraeth Cymru yn 2019 gyda ffocws ar nodi a defnyddio asedau sy'n eiddo cyhoeddus i gynorthwyo'r gwaith o ddarparu tai cymdeithasol.

**188.** Mae'r Gyllideb Ddrafft yn dyrannu £25.5 miliwn o gyfalaf i'r Gronfa Datblygu Tir ac Adeiladau ar gyfer 2026-27, sydd 2 y cant (£0.5 miliwn) yn uwch na 2025-26. Nodir ym mhapur tystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet mai bwriad hyn oedd tynnu'r risg o'r tir ac adeiladau i hyrwyddo datblygiadau, gan gynnwys talu costau fel tynnu asbestos a diheintio tir.

**189.** Mae'r gyllideb ddrafft hefyd yn dyrannu £-1.54 miliwn o refeniw. Dywedir ym mhapur tystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet bod y ffigur negyddol hwn yn cyfrif am refeniw disgwyliedig o werthu tir sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru.

**190.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor fod yr Is-adran Tir yn dod â safleoedd ymlaen mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys hyrwyddo

[32] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 188

cydweithio rhwng cyrff sector cyhoeddus a nodi, prynu a pharatoi tir i'w ddatblygu.[33]

**191.** Dywedodd swyddogion fod Llywodraeth Cymru yn disgwyl cronni incwm o £2.5 i £3 miliwn drwy werthu tir gan fod hynny'n gyson â gwerthiannau tir hanesyddol. Dywedodd swyddogion hefyd fod gan yr Is-adran Tir 27 safle yn barod dan berchnogaeth, sy'n cwmpasu 1,300 erw o dir, a'i bod wedi gwneud darn o waith i chwilio am gaffaeliadau safleoedd posibl eraill ledled Cymru. Eu dadl oedd bod y cyflenwad hwn yn ddigonol i'r Is-adran Tir gyflawni ei hamcanion o ddod â mwy o dir ymlaen ar gyfer tai cymdeithasol.

### Ein barn ni

**192.** Clywodd ein hymchwiliad blaenorol ar gyflenwad tai cymdeithasol fod gwneud mwy o dir cyhoeddus ar gael ar gyfer adeiladu tai cymdeithasol yn hanfodol. Fe wnaethom groesawu sefydlu Is-adran Tir o fewn Llywodraeth Cymru a'r gwaith mae'n ei wneud ar hyn o bryd gyda datblygwyr a buddsoddwyr, ond fe wnaethom ddod i'r casgliad bod angen datblygiad strategol ar raddfa fwy y tu hwnt i gapasiti presennol yr Is-adran Tir. Er ein bod ni'n argymell y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu corfforaeth ddatblygu, gwrthododd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn, gan nodi "Yn ein barn ni, gall yr Is-adran Lle, drwy gydweithio â phartneriaid yn Llywodraeth Cymru a'r tu allan iddi, gyflawni ein huchelgeisiau i ddarparu safleoedd strategol ar raddfa fawr a chefnogi'r gwaith o gysoni ymdrechion tai ac adfywio", y mae'r Is-adran Tir yn rhan ohoni.

**193.** Nodwn fod y Tasglu Cartrefi Fforddiadwy wedi argymell y dylai'r Is-adran Tir nodi'n rhagweithiol dir ar gyfer tai fforddiadwy, ac y dylid darparu tir sy'n eiddo i'r sector cyhoeddus ar ddisgownt os caiff ei ddefnyddio ar gyfer nifer sylweddol o gartrefi cymdeithasol. Derbyniodd Llywodraeth Cymru holl argymhellion y Tasglu.

**Casgliad 8.** Rydym yn siomedig nad yw'r gyllideb ddrafft hon yn dangos unrhyw newid yn ymagwedd Llywodraeth Cymru at dir o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Yn hytrach na dibynnu ar dderbyniadau o werthiannau tir ar gyfraddau'r farchnad, dylai Llywodraeth Cymru gydnabod bod buddsoddiad mewn tir cyhoeddus, a gwaith yr Is-adran Tir, yn agwedd hanfodol

[33] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion paragraff 104

ar y cyflenwad tai cymdeithasol, ac mae angen ei ehangu er mwyn datblygu'r safleoedd ar raddfa fawr sydd eu hangen ar Gymru.

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut bydd yn gweithredu ei hymrwymiad i argymhelliad y Tasglu Tai Fforddiadwy i gynyddu'r cyflenwad o dir ar gyfer tai fforddiadwy.